



ADRODDIAD CYNNYDD 2021





EISIAU GWNEUD ADDUNED LLYSIAU?
Cysylltwch ag office@foodfoundation.org.uk i gael rhagor o wybodaeth

Diolchiadau

Rydym yn hynod ddolchgar i bawb a gyfrannodd at yr adroddiad hwn, ein holl addunedwyr a adroddodd ar eu cynnydd yn 2021 ac i'n Hyrwyddwyr Llysiau am eu cefnogaeth a'u cyfraniad dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch yn arbennig i'n cyllidwr, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (Rhaglen y DU), am wneud ein gwaith yn bosibl.



Ynglŷn â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Ni yw cyllidwr mwyaf gweithgaredd cymunedol yn y DU - rydym yn falch o ddyfarnu arian a godir gan chwaraewyr y Loteri

Genedlaethol i gymunedau ledled Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Er mis Mehefin 2004, rydym wedi rhoi dros 200,000 o grantiau ac wedi dyfarnu dros £9 biliwn i brosiectau sydd wedi bod o fudd i filiynau o bobl. Rydym yn frwd iawn ynglŷn ag ariannu syniadau gwych sydd o bwys i gymunedau ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Wrth wraidd popeth a wnawn mae'r gred bod cymunedau yn ffynnu pan fydd pobl yn eu harwain. Diolch i gefnogaeth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, gall unrhyw un wneud cais am ein cyllid. Mae'n ffrainth gallu gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau, o grwpiau bychan lleol i elusennau sy'n cwrddu'r DU gyfan, gan alluogi pobl a chymunedau i wireddu eu huchelgeisiau.

GYDA DIOLCH I'R RHAI A GYFRANNODD ASTUDIAETHAU ACHOS

Mark Newbold (Lidl GB), **Suzu Russell** (Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned, AGG), **Bethan Tempest** (Sainsbury's), **Laura Milne** (Birds Eye), **Pearl Costello** (Bwyd Caerdydd).

DIOLCH I FYRDDAU PROSIECT A STRATEGAETH PYS PLÏS:

BWRDD PROSIECT

Rebecca Tobin	The Food Foundation
Indu Gurung	The Food Foundation
Amber Wheeler	The Food Foundation
Anna Taylor	The Food Foundation
Sophie Peters	The Food Foundation
Jo Ralling	The Food Foundation
Raf Bogan	The Food Foundation
Roz Salik	The Food Foundation
Katie Palmer	Synnwyr Bwyd Cymru
Pearl Costello	Synnwyr Bwyd Cymru
Sian-Elin Davies	Synnwyr Bwyd Cymru
Michele Shirlow	Food NI
Lindsay Curran	Food NI
Portia Woods	Belfast Food Network
Pete Ritchie	Nourish Scotland
Simon Kenton-Lake	Nourish Scotland
Irina Martin	Nourish Scotland

BWRDD STRATEGAETH

Kerry Melville	Belfast Food Network
Mark Spires	Prifysgol y Ddinas
Alex McDonald	Kantar
Giles Quick	Kantar
Jack Hamilton	Mash Direct
Atul Patel	PwC
Juliane Caillouette Noble	Y Gymdeithas Bwyta Cynaliadwy
Sofia Parente	Sustain
Martin White	CEDAR, Prifysgol Caergrawnt
Richard Swannell	WRAP
Joanna Trewern	WWF

MAE PYS PLÏS YN CEFNOGI



Cynnwys

Addunedwyr	2
Diolchiadau	3
Crynodeb o gyflawniadau ac addunedwyr	4
Ein theori newid	5
Pys Plis yn codi stêm	6
Uchafbwyntiau eleni	8
Monitro cynnydd addunedwyr	10
Cynnydd Addunedwyr	12
Enghreifftiau o arloesedd gyda llysiau	14
Gwobrau Pys Plis	16
ASTUDIAETHAU ACHOS:	
· Sainsbury's	18
· Birds Eye	18
Hyrwyddwyr Llysiau	19
Ein heffaith	21
ASTUDIAETH ACHOS:	
· Bwyd Caerdydd	25
Ein heffaith ar bolisi	26
ASTUDIAETHAU ACHOS:	
· Lidl a Cychwyn Iach	27
· AGG: creu cyflenwad bwyd cynaliadwy sydd â'i wreiddiau yn y gymuned	28
Ein heffaith yn allanol	29
Gwersi allweddol a'r camau nesaf	30
Diolch	31
Atodiad - dadansoddiad manwl o gynnydd addunedwyr	32
Cyfeiriadau	36

CRYNODEB O GYFLAWNIADAU AC ADDUNEDWYR



Ers lansio
Pys Plis
yn 2017 >>

**MAE
636
MILIWN**

o ddognau ychwanegol
o lysiau wedi'u
gwerthu neu
eu gweini



ELENI

MAE 7 sefydliad eisoes
wedi cyflawni
eu hadduned

MAE 21 o addunedwyr
wedi diweddaru
eu haddunedau



o bobl drydedd
ymgyrch hysbysebu
Nerth Llysiau ac ITV
Bwytwch y Llysiau
i'w Llethu ar ITV,
Channel 4 a Sky

5 Ychwanegodd
5 manwerthwr
Pys Plis
werth at y cynllun
Cychwyn Iach, gan
helpu 61,000 yn
fwy o deuluoedd i
gael mynediad i'r
cynllun




**cymerodd
1,900**
o ysgolion ran
yn rhaglen
ysgolion Nerth
Llysiau



**mae
180**

o Hyrwyddwyr Llysiau yn gweithio gyda ni i
hyrwyddo llysiau ledled y DU ac yn eu cymunedau

Ein theori newid



Pys Plîs yn codi stêm

Lansiwyd Pys Plîs gyda chenhadaeth glir: ei gwneud yn haws i bawb yn y DU fwyta mwy o lysiau. Ers ei lansio yn 2017 rydym wedi cydweithio â busnesau, dinasoedd a dinasyddion ac wedi cyflawni llawer ond mae llawer iawn o waith i'w wneud o hyd os yw'r DU i ddod yn genedl sy'n bwyta llysiau. Er ein bod yn dechrau gweld cynnydd tuag at nod ein rhaglen o weini neu werthu 3 biliwn o ddogonau ychwanegol o lysiau fel cymuned addunedwyr erbyn 2023, mae'r swm sy'n cael ei fwyta ar lefel y boblogaeth yn parhau i fod ymhell islaw'r hyn a argymhellir (Pys Plîs, 2021). Gyda Covid-19 ac ymadawiad Prydain o'r UE yn parhau i effeithio ar deuluoedd, cadwyni cyflenwi a busnesau bwyd, erys nifer o rwystrau o ran sicrhau bod llysiau ar gael, yn hygyrch ac yn fforddiadwy i bawb. I'r perwyl hwn mae gennym dri nod:

1

Gweld mwy o lysiau'n cael eu bwyta: Rydym eisiau gweld mwy o lysiau'n cael eu cynnig mewn ffyrdd cyfleus a hawdd eu bwyta. Rydym eisiau i lysiau fod yn fwy deniadol a dymunol. Ac rydym eisiau i aelwydydd incwm isel gael mwy o bŵer i brynu llysiau.

2

Ysgogi newid parhaol yn y system fwyd o blaid bwyta mwy o lysiau, sy'n cael ei adlewyrchu mewn arferion busnes a pholisïau'r llywodraeth.

3

Creu model llwyddiannus er mwyn galluogi i leisiau a phrofiadau pobl greu newid yn y system fwyd.

Mae'r pandemig wedi parhau i gael effaith ddifrifol ar y sector bwyd yn ystod blwyddyn adrodd 2020/21 Pys Plîs (Gorffennaf i Fehefin). Unwaith eto, mae'r sector manwerthu wedi cael blwyddyn lle mae'r refeniw wedi bod yn uwch na'r arfer o ystyried bod llawer o ffreuturau'r gweithle, allfeydd bwyd-i-fynd a bwytai wedi'u gorfodi i gau am ran helaeth o'r cyfnod (Jashan, 2021). Roedd yr effaith ar y sector Oddi Allan i'r Cartref – sydd ond wedi dechrau ailgodi ac ailagor yn ystod y tri i chwe mis diwethaf – yn golygu nad oedd 34% o'n haddunedwyr yn y sector Oddi Allan i'r Cartref yn gallu adrodd yn ôl i ni yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Bydd hyn wedi effeithio ar gyfanswm ein dognau a bydd yr orfodaeth i gau dro ar ôl tro wedi effeithio ar ddatblygiad bwydlenni

**MAE LLAWER IAWN
O WAITH I'W WNEUD
O HYD OS YW'R DU I
DDOD YN GENEDL SY'N
BWYTA LLYSIAU**

a chyflymder y newid sy'n ofynnol i sicrhau bod bwyd sy'n cael ei fwyta oddi allan i'r cartref yn cyfrannu mwy at y llysiau a fwyteir nag y mae ar hyn o bryd.

Felly yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio gyda rhai o'n haddunedwyr sydd wedi aros ar agor i adnewyddu a diwygio eu haddunedau llysiau, ac rydym wedi bod wrth ein bodd o weld cymaint o addunedwyr yn codi i'r her ac yn ymrwmo i addunedau newydd, mwy uchelgeisiol a fydd yn ein helpu i wneud cynnydd pellach a chyflymach. Ein bwriad yw trosglwyddo pob adduned tuag at fodel addunedu CLYFAR, ac rydym





yn gobeithio ymgymryd â phroses debyg gyda'n haddunedau arlwygo a bwyta'i ar ôl i fusnesau Allan o'r Cartref ddychwelyd i normalrwydd. O ran 'beth yw adduned da', mae templed o adduned i'r rhai yn y sector manwerthu ar gael yma. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd tryloywder wrth adrodd ar gynnydd o ran gwerthiant llysiau ochr yn ochr ag ymrwymïadau parhaus i farchnata a hyrwyddo llysiau.

Yn adroddiad cynnydd y llynedd, fe wnaethom dynnu sylw at yr angen i'r sector manwerthu yn benodol gynyddu ei weithgaredd a chefnogi'r DU i fwyta mwy o lysiau o ystyried y dylanwad sydd ganddo ar ein basgedi siopa, ac rydym wedi bod yn falch iawn o weld ein haddunedwyr yn y mes manwerthu yn gwneud hynny dros y flwyddyn ddiwethaf. Eleni mae 78% o gyfanswm ein dognau yn deillio o'n manwerthwyr, cynnydd o 31 pwynt canran o'i gymharu â'r llynedd. Mae sawl un o'n haddunedwyr hefyd wedi cefnogi'r cynllun Cychwyn Iach dros y flwyddyn ddiwethaf, gan helpu i wneud i gyllidebau ffrwythau a llysiau ar gyfer teuluoedd incwm isel ymestyn ymhellach. Mae ychwanegu Morrisons at ein cymuned addunedwyr yn golygu bod manwerthwyr sydd â 92% o gyfran marchnad manwerthu'r DU wedi ymrwymo i Pys Plîs, felly bydd parhau i hyrwyddo llysiau gan y sector manwerthu yn hanfodol os ydym am ddechrau cael effaith sylweddol ar y llysiau y mae pobl y wlad yn eu bwyta.

Mae cyfanswm o 12 addunedwr newydd wedi ymuno â ni ers adroddiad cynnydd 2020. Croeso cynnes iddyn nhw i gyd:

- » Morrisons
- » Strong Roots
- » TastEd
- » Ysgol Fusnes Prifysgol Ulster
- » Prifysgol Stirling
- » Prifysgol Stirling - Undeb y Myfyrwyr
- » Swperbox
- » Source Grow
- » Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP)
- » Prifysgol Caeredin
- » Moo to You
- » Quorn




Uchafbwyntiau eleni

CYHOEDDWDYD TRI ADRODDIAD GENNYM:

Mae **Adroddiad Llysiau'r Bobl: Llysiau Covid**

yn casglu straeon gan bron i gant o bobl yng nghanol y cyfnod o gyfyngiadau COVID-19 ledled y DU yn 2020 (Mehefin-Awst). Mae'r rhain yn paentio darlun o brofiadau pobl o gael mynediad at ffrwythau a llysiau yn ystod y pandemig, ac yn tynnu sylw at y ffaith bod fforddiadwydd yn parhau i fod yn rhwystr allweddol o ran bwyta ffrwythau a llysiau yn y DU.



Mae **Ffeithiau am Lysiau**

2021, y trydydd yn ein cyfres o adroddiadau Ffeithiau am Lysiau, yn edrych unwaith eto ar faint o lysiau y mae pobl y DU yn eu bwyta, gan archwilio'r rhwystrau a'r grymoedd cadarnhaol a allai helpu a llesteirio cynnydd yn y dyfodol, a thynnu sylw at atebion posibl ar gyfer mynd i'r afael â'r her. Gwelsom fod y swm o lysiau a fwyteir yn parhau i fod yn isel, gyda bron i draean o'r plant yn bwyta llai nag un dogn o lysiau y dydd, ac ymchwiliwyd i'r manteision iechyd ac amgylcheddol yn sgil deiet sy'n cynnwys mwy o lysiau.



Mae **Bwydo ein Dyfodol: Ymchwiliad i lysiau mewn bwyd ysgol yn y DU**

yn edrych ar y ddarpariaeth wahanol o fwyd ysgol ar draws pedair gwlad y DU, gyda ffocws ar ansawdd bwyd ysgol a pha mor hawdd yw hi i blant gael gafael ar bryd bwyd maethlon tra byddant yn yr ysgol. Fe wnaethom gyflwyno nifer o enghreifftiau o arfer gorau gan ystod eang o sefydliadau sy'n gweithio ym maes bwyd ysgol. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion ar gyfer llunwyr polisi, arlwywyr ac ysgolion sydd am wella ansawdd y bwyd y mae plant ysgol yn ei fwyta, gan dynnu sylw at y cyfleoedd i ysgolion annog plant i fwyta mwy o lysiau.



CAFODD ADRODDIADAU PYS PLÎS EU LAWRLWYTHO DROS 4,200 O WEITHIAU RHWNG MIS RHAGFYR 2020 A MIS GORFFENNAF 2021

Fe wnaethom gyrraedd carreg filltir o 100 o addunedwyr

CAFODD PYS PLÎS A NERTH LLYSIAU SYLW YN 369 O ALLFEYDD CYFRYNGOL, GAN DDYBLU'R SYLW ERS 'LLYNEDD

Daethom â thros 1,100 ohonoch ynghyd ar-lein yn ein digwyddiadau **Gŵyl Lysiau** ac **Uwchgynhadledd Llysiau**, lle y gwnaethom drafod popeth yn ymwneud â llysiau a'r ffyrdd gorau o gynyddu'r llysiau a fwyteir yn y DU.



Lansiwyd gwefan newydd Pys Plis. Mae porth adrodd wedi'i ailwampio ar y gweill hefyd. Cadwch eich llygaid ar agor!

MAE 68% O'R ADDUNEDWYR SY'N CYMRYD RHAN (ADDUNEDWYR AC EITHRIO DINASOEDD LLYSIAU) BELLACH WEDI GOSOD TARGEDAU CAMPUS AR GYFER CYNYDDU GWERTHIANT LLYSIAU AR DRAWS EU BUSNES, GAN NODI NEWID SYLWEDDOL MEWN ARFERION BUSNES GYDA MWY A MWY O FUSNESAU YN YMGORFFORI YMRWYMIAD I LYSIAU YN EU HAMCANION STRATEGOL A'U HARFERION ADRODD.



Addunedwyr sydd wedi diweddarau ac ehangu eu haddunedau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

- » ACS, the Association of Convenience Stores
- » Lantra
- » Nestlé
- » Sainsbury's
- » The Co-operative
- » Waitrose
- » Tesco
- » Lidl
- » Aldi
- » Henderson Group /SPAR NI
- » British Growers
- » Mars Food
- » Compass Group
- » Greggs
- » Puffin Produce
- » Castell Howell
- » Birds Eye
- » Mash Direct
- » Bidfood
- » Cymdeithas Bwytaï Cynaliadwy
- » ITV

TABL 1

MAPIO CYRHAEDDIAD PYS PLIS A'R POTENSIAL I SICRHAU NEWID AR GYFER YR ADDUNEDAU ELENİ

Sector	Nifer yr addunedau PP	Pa gyrhaeddiad sydd gan ein haddunedwyr yn eu sectorau?	% yr addunedwyr sydd â thargedau CAMPUS
Manwerthu	10	92.4% o gyfran y farchnad nwyddau manwerthu*	60%
Arlwyo	16	Mae 3 addunedwr ymysg y deg cwmni arlwyo sydd â'r trosiant uchaf	88%
Bwytaï anffurfiol	11	Mae 2 addunedwr ymysg y deg brand o fwytai achlysurol sydd â'r trosiant uchaf	100%
Cyfanwerthu	3	Mae 1 addunedwr ymysg y deg cyfanwerthwr sydd â'r trosiant uchaf	66%
Gweithgynhyrchu	4	Mae 1 addunedwr ymysg y deg gweithgynhyrchydd sydd â'r trosiant uchaf	75%

Ffynonellau: Cymerwyd yr amcangyfrifon o gyfran y farchnad ar gyfer addunedwyr Pys Plis (ym mis Medi 2021) o Kantar 2021; Statista 2021; The Grocer 2021; 2021; OC&C 2018.

* gan gynnwys Morrisons

ADRODD MEWN Ffordd DRYLOYW

Ffocws Pys Plis dros y flwyddyn ddiwethaf fu gweithio gyda'n haddunedwyr i sicrhau bod yr ymrwymadau yn rhai CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyl) ac yn anelu at fwy o dryloywder wrth adrodd ar gyfanswm y gwerthiannau neu'r gwariant caffael sy'n gysylltiedig â llysiau. Pan fyddwn yn gallu asesu hyn yn gywir, gallwn osod llwybr a thargedau i weithio tuag at gynyddu 'dwysedd llysiau' y gweithgareddau busnes cyfredol i gefnogi bwyta mwy o lysiau yn y DU.

Mae lluo o fanteision i adrodd yn dryloyw ar werthiannau llysiau. Mae diffyg data tryloyw yn y diwydiant bwyd yn llesteirio cynnydd tuag at systemau bwyd iach, cyfiawn a chynaliadwy. Mae angen data da ar fusnesau i ysgogi

gwelliannau yn eu gweithrediadau a'u cadwyni cyflenwi eu hunain, mae angen data da ar fuddsoddwyr i ddeall risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r cwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt, ac mae angen data da ar Lywodraethau i asesu cynnydd tuag at dargedau cenedlaethol.

O ystyried bod archfarchnadoedd (a nifer bach o fusnesau o'r sector Oddi Allan i'r Cartref) eisoes yn dechrau adrodd yn y modd hwn, byddem yn annog y Llywodraeth yn gryf i gyflwyno adroddiadau gorfodol yn unol ag argymhellion y Strategaeth Fwyd Genedlaethol (Dimbleby, 2021). Rydym hefyd yn awgrymu proses ymgynghori i ddatrys ansicrwydd ac i ddiffinio'r paramedrau ar gyfer adrodd yn well ar werthiant ffrwythau a llysiau.

Monitro cynnydd addunedwyr

Mae llwyddiant Pys Plis yn dibynnu ar ansawdd y broses fonitro ac i ba raddau y mae addunedwyr yn cael eu dal atebol am eu hymrwymadau. Prif bwrpas cyhoeddi ein hadroddiadau cynnydd yw asesu ffyddlondeb pob addunedwr i'w hadduned. Gwneir gwaith monitro bob blwyddyn drwy gyfuniad o:

1 Addunedwyr yn hunanadrodd i dîm PP, gan adrodd yn ôl yn erbyn eu hymrwymadau a'u targedau CAMPUS.

2 Defnyddio metrigau cyfanredol, o ffynonellau annibynnol (data Kantar a data blynyddol o arolygon deietegol sy'n cynrychioli'r sefyllfa genedlaethol fel yr Arolwg Cenedlaethol o Ddeiet a Maeth (NDNS).

3 Ymweliadau, lle bo hynny'n berthnasol, â siopau manwerthu, cadwyni bwyta a gwiriadau sianeli cyfryngau cymdeithasol a gynhelir gan ein Hyrwyddwyr Llysiau a'r tîm Pys Plis. Eleni ymwelodd 36 o Hyrwyddwyr Llysiau â 50 o archfarchnadoedd.

4 Gweithio gyda phartneriaid annibynnol (Brightpurpose a Phrifysgol y Ddinas) a'u rôl yw gwerthuso'r rhaglen gyffredinol ac asesu i ba raddau yr ydym yn cyflawni ein hamcanion gwreiddiol.



Y BROSES ELENÍ

Eleni, cwblhaodd yr addunedwyr daenlenni ar eu cynnydd tra roeddem wrthi'n ailwampio'r porth adrodd ar-lein arferol. Gofynnwyd i addunedwyr hunanasesu eu cynnydd gyda sgôr rifiadol ar raddfa o 1-3, a darparu cyfiawnhad dros y sgôr a roddwyd ac yna fe wnaethom ddefnyddio hynny i gadarnhau neu

addasu'r sgôr hunanraddio. Rydym yn cyhoeddi dau god lliw goleuadau traffig ar gyfer addunedwyr yn seiliedig ar y sgôr rifiadol hon pan fyddant yn adrodd ar eu hail ddata a'r blynyddoedd dilynol o ddata (un ar gyfer cynnydd cyffredinol, ac un ar gyfer cynnydd dogn lle bo hynny'n berthnasol). Rhennir

canlyniadau'r flwyddyn gyntaf gydag addunedwyr yn breifat. Fodd bynnag, mae cyfraniadau at ein cyfansymiau dognau blynyddol a chronnol wedi'u cynnwys o flwyddyn adrodd gyntaf yr addunedwyr er mwyn olrhain ein cynnydd dros gyfnod y rhaglen gyfan.

Diffinnir y sgôr goleuadau traffig fel a ganlyn:

- **DU:** Dim adroddiad gan yr addunedwr
- **LLWYD:** Blwyddyn adrodd gyntaf (adroddir ar y sgôr y flwyddyn nesaf)
- **COVID-19:** Methu ag adrodd eleni oherwydd materion yn ymwneud â chapasiti yn sgil Covid-19
- **COCH:** Cynnydd cyfyngedig
- **OREN:** Dechrau da
- **MELYN:** Ar y ffordd tuag at lwyddiant
- **GWYRDD:** Wedi cyflawni'r holl ymrwymadau'n llawn

I gydnabod yr effaith y mae cyfyngiadau Covid-19 wedi'i chael ar y sector lletygarwch dros y 12 mis diwethaf (gyda ffyrlo, dau gyfnod clo llawn a sawl mis o gyfyngiadau) eleni fe wnaethom gynnig yr opsiwn i'n haddunedwyr

yn y sectorau Oddi Allan i'r Cartref a chyfanwerthu i optio allan o adrodd. Yn lle hynny, fe wnaethom ofyn iddyn nhw gwblhau arolwg byr yn eu holi am eu cynlluniau ar gyfer llysiau yn y dyfodol er mwyn cael mewnwelediad mwy ansoddol.

Gofynnwyd i bob addunedwr arall adrodd yn ôl yn unol â'r arfer. Rhoddwyd sgôr goleuadau traffig du i'r addunedwyr hynny na wnaethant adrodd yn ôl i ni na chysylltu â ni i roi gwybod i ni am eu sefyllfa.



NERTH LLYSIAU

Dadansoddir data gwerthiannau a chanlyniadau manylach ar gyfer ein chwaer raglen North Llysiau ar wahân fel rhan o ymarfer gwerthuso blynyddol yr ymgyrch a wneir gan North Llysiau. Fe wnaeth 21% o blant ysgolion cynradd yn y DU a welodd ymgyrch Bwytwch y Llysiau i'w Llethu ITV a North Llysiau fwyta mwy o lysiau — swm sy'n cyfateb i 1.2 miliwn o blant yn genedlaethol. Ewch i'r Swefan i gael rhagor o fanylion am eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Cynnydd yr addunedwyr

Mae mwyafrif yr addunedwyr a gyflwynodd ddata wedi gwneud cynnydd ar eu haddunedau. Cafodd 28 o blith 40 a adroddodd yn ôl i ni eleni sgôr goleuadau traffig melyn neu wyrdd ac felly maent ar y trywydd iawn i gyflawni eu hymrwymiaid neu eisoes wedi gwneud hynny (gweler Atodiad 1). Rhoddwyd golau traffig gwyrdd i lai o addunedwyr eleni o'i gymharu â'r llynedd, ond mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod llai o addunedwyr Oddi Allan i'r Cartref wedi adrodd yn ôl i ni, ac i'r nifer fawr o sefydliadau a wnaeth addunedau newydd eleni a fydd yn parhau tan 2023 ac felly dim ond megis dechrau ar eu taith i gyflawni eu hymrwymiaid newydd y maent.

ADDUNEDWYR A GAFODD SGÔR GOLEUADAU TRAFFIG GWYRDD ELENi

Autograph Education (Mitie)

Blackpool Catering Services

Caterlink

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Bags of Taste

Henderson Group/SPAR NI

Lantra

Nestlé UK

Cymdeithas y Pridd


MAE'R SECTOR MANWERTHU YN BENODOL WEDI GWNEUD CYNNYDD O RAN CWMPAS AC UCHELGAIS EU HADDUNEDAU

Mae'r ymrwymiaidau cryfach a symlach a wnaed gan ein haddunedwyr manwerthu eleni eisoes yn talu ar eu canfed o ran galluogi Pys Plîs i olrhain y cynnydd sy'n cael ei wneud gan archfarchnadoedd o ran cynyddu faint o lysiau y maent yn eu gwerthu. Mae Aldi, Lidl, Sainsbury's a Henderson Group/SPAR NI yn haeddu cydnabyddiaeth benodol am ymrwymo i dargedau CAMPUS ar gyfer cynyddu gwerthiant llysiau ar draws eu busnesau. Mewn man arall rydym wedi gweld ymrwymiaidau uchelgeisiol i gynyddu faint o lysiau sydd yn eu prydau parod a'u cynhyrchion cyfansawdd, cam sydd i'w groesawu o ran helpu i wneud opsiynau mwy cyfleus yn iachach. Gellir gweld effaith yr ymrwymiaidau CAMPUS hyn yn y cynnydd yn nifer y dognau a gyfrannwyd at ein cyfanswm cronol gan y sector manwerthu rhwng y llynedd ac eleni. Y flwyddyn nesaf hoffem weld canran debyg o gynnydd ymhlith ein haddunedwyr Oddi Allan i'r Cartref. Ar hyn o bryd, dim ond un dogn o lysiau y mae dinasyddion yn ei chael am bob pedwar pryd sy'n cael eu bwyta oddi allan i'r cartref, felly mae digon o gyfle i gynyddu'r dognau llysiau yn y sector hwn (Pys Plîs, 2021).

FFIGUR 1

CANRAN Y CYFRANIAD AT GYFANSWM CRONNOL EIN DOGNAU WEDI'I DDADANSODDI YN ÔL SECTOR; 2018 - 2021

■ 2018/19 ■ 2019/20 ■ 2020/21





EFFAITH COVID-19

Nid oedd modd i 34% o'n haddunedwyr adrodd yn ôl i ni eleni oherwydd materion yn ymwneud â chapasiti yn sgil Covid-19, gyda llawer yn methu â masnachu fel arfer oherwydd iddynt orfod cau droeon rhwng Hydref 2020 a Haf 2021. Mae hyn yn debyg iawn i gylch adrodd y llynedd, gan ddangos effaith hirhoedlog a pharhaus y pandemig.

TABL 2

CYNNYDD O RAN ADRODD AR GYNNYDD PYS PLÏS


	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Nifer yr addunedwyr sydd i fod i adrodd eleni	41	49	70	74
Nifer yr addunedwyr a ddarparodd ddata hunangofnodedig	35	41	38	40*
Nifer yr addunedwyr sy'n cael eu monitro gan y fîm PP - dim data hunan-gofnodedig	3	5	3	2
Nifer yr addunedwyr na wnaethant ddarparu data	3	3	4 (mae 2 ohonynt bellach wedi cael eu dileu o'r rhaglen)*	2 (mae 1 ohonynt wedi cael ei ddileu o'r rhaglen)*
Nifer y Dinasoedd Llysiau	**	22	25	25

* Ni ddarparodd 26 o addunedwyr ychwanegol ddata oherwydd materion yn ymwneud â chapasiti yn sgil COVID-19.

** Cymerodd tair Dinas Llysiau ran yn y broses fonitro fel addunedwyr yn 2017/18 a chânt eu cyfrif uchod yn nifer yr addunedwyr sydd i fod i gyflwyno adroddiad.

ENGHREIFFTIAU O ARLOESI GYDA LLYSIAU

Fel erioed, mae addunedwyr wedi ymgymryd â'r her llysiau mewn nifer o ffyrdd arloesol eleni – mae pob un ohonynt yn helpu i lywio ein gwybodaeth o'r hyn sy'n gweithio i gynyddu'r llysiau sy'n cael eu bwyta.



DATBLYGU CYNNYRCH

- Mae **Waitrose** wedi addo cynyddu'r llysiau mewn cynhyrchion newydd a chynhyrchion wedi'u hailfformiwleiddio. Drwy gydol y broses datblygu cynnyrch mae'n rhaid cofnodi cyfran y llysiau mewn ryseitiau ar gyfer yr holl brydau parod a chynhwysion prydau bwyd/ prydau cyfansawdd er mwyn cynyddu nifer y cynhyrchion sy'n gallu defnyddio'r label 5 y dydd.



MARCHNATA A CHYFATHREBU

- Mae'r **Co-op** yn amserlennu negeseuon cyfryngau cymdeithasol misol yn hyrwyddo ffrwythau a llysiau tymhorol ac yn rhannu dolenni i ryseitiau'r Co-op sy'n defnyddio'r ffrwythau neu'r llysiau penodol hynny. Mae gan bob rhifyn o gylchgrawn bwyd Co-op hefyd erthygl sy'n dwyn y teitl 'Our first taste' sy'n hyrwyddo ffrwyth neu lysieuyn yn eu tymor gyda ryseitiau yn dangos sut i'w defnyddio. Yn 2020, roedd gan 44% o ryseitiau yng nghylchgrawn y Co-op label 5-y-dydd.

- Mae **Henderson Group/ SPAR ac EUROSPAR NI** wedi cynnal ymgyrch ddigidol sy'n canolbwyntio ar gynhyrchwyr Gwyddelig lleol, gan ddarparu ryseitiau, awgrymiadau a syniadau defnyddiol ar gyfer coginio gyda llysiau. Mae eu taflenni hyrwyddo hefyd wedi canolbwyntio ar fargeinion da ar ffrwythau a llysiau ac yn tynnu sylw at y nwyddau hynny sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol.



DATBLYGU BWYDLENNI

- Mae pob un o daflenni bwydlen ysgolion cynradd **Autograph Education's** yn cynnwys symbolau sy'n seiliedig ar fwyd i gyfleu eu dull o ddatblygu ryseitiau ac amlygu eu safonau maethol uchel i ysgolion, rhieni a disgyblion. Er enghraifft, defnyddir symbol moronen i nodi prydau cyfansawdd sy'n cynnwys 1/2 dogn ychwanegol o lysiau. Yn ogystal, mae 95% o'u hysgolion cynradd wedi cyflwyno dydd Llun di-gig – a ddefnyddir fel cyfle i annog disgyblion i ddewis y prydau sy'n llawn llysiau.
- Mae **Compass Group** wedi lansio canllawiau cynllunio bwydleni iachach newydd i'r busnes sy'n rhoi blaenoriaeth i blanhigion ac sy'n hyrwyddo cynnwys mwy o lysiau mewn prydau bwyd. Er enghraifft, rhaid i bryd sy'n rhoi blaenoriaeth i blanhigion sicrhau mai llysiau yw hanner y plât.



LLEOLI A HYRWYDDO LLYSIAU

- Yn dilyn llwyddiant treial gyda menter *Collaboration for Healthier Lives* y Fforwm Nwyddau Traul, mae **Tesco** wedi dechrau cyflwyno ei fenter Pick of the Crop yn ei siopau Express, gan gynnig tair borgen ar ffrwythau a llysiau sy'n newid bob pythefnos yn dibynnu ar yr hyn sydd yn ei dymor.



POLISI SY'N CANOLBWYNTIO AR LYSIAU

- Mae'r **Gymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS)** wedi parhau i hyrwyddo'r Cynllun Cychwyn Iach ymhlith ei haelodau sy'n aml yn gwasanaethu cymunedau ar incwm isel. Maent wedi datblygu canllawiau newydd i fanwerthwyr ar newidiadau i gwmpas cynnyrch Cychwyn Iach ac wedi cyfleu newidiadau arfaethedig i'r cynllun yn rheolaidd i fanwerthwyr siopau cyfleustra drwy e-byst briffio wythnosol, straeon newyddion ar y diwydiant a datganiadau i'r wasg, a diweddariadau rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol. Hyd yma, mae animeiddiad Cychwyn Iach ACS wedi cael ei weld dros 1,100 o weithiau.

- Mae **Undeb Ffermwyr Ulster** wedi bod yn gweithio gyda ffermwyr a grwpiau garddwriaethol ar draws Gogledd Iwerddon gyfan i gefnogi lansio menter llysiau newydd – Parful Produce – sy'n anelu at hyrwyddo llysiau Gogledd Iwerddon ac annog pobl i'w bwyta. Gwahoddwyd y Gweinidogion Iechyd, Addysg ac Amaeth i lansio'r fenter llysiau newydd ynghyd â manwerthwyr lle roedd rhanddeiliaid yn gallu cwrdd â'r tyfwyr a chael eu cyflwyno i'r fenter llysiau gydweithredol newydd.

Lle mae addunedwyr wedi cael trafferth yn gwneud cynnydd ar eu haddunedau, maent wedi tynnu sylw at effaith barhaus y pandemig. Tynnodd sawl un o'n haddunedwyr arlwyio ysgol, er enghraifft, sylw at yr heriau wrth ddarparu prydau poeth oherwydd prinder staff ac amser cinio byrrach. Roedd llawer o ysgolion eisiau prydau bwyd "di-lanast" i'r plant eu bwyta yn eu hystafelloedd dosbarth neu yn eu swigod, a oedd yn golygu bod bwyd poeth a bariau salad yn aml yn cael eu rhoi i'r naill ochr o blaid prydau "taclusach" fel brechdanau. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anoddach ychwanegu llysiau fel cynhwysion cyfansawdd, a'r opsiwn gorau weithiau oedd dim ond ambell ddarn o giwcymbr mewn brechdan a chrudités mewn bag i fynd. Yn yr un modd, mae nifer o'n siopau Oddi Allan i'r Cartref wedi gweld gostyngiad mawr yn nifer yr ymwelwyr yn ystod y pandemig wrth i fynediad ymwelwyr a staff (er enghraifft mewn ysbytai) barhau i fod yn gyfyngedig.


BETH NESAF I'R SECTOR ODDI ALLAN I'R CARTREF?

Yn ystod y cyfnod monitro eleni, fe wnaethom gynnal arolwg i ddeall yn well gynlluniau llysiau ein haddunedwyr o'r sector Oddi Allan i'r Cartref a chyfanwerthwyr yn y dyfodol, y mae cyfyngiadau gweithredu yn ystod y pandemig wedi effeithio fwyaf arnynt. O blith y 31 o addunedwyr a wahoddwyd i gwblhau'r arolwg, ymatebodd 19. Er bod y sampl hon felly'n rhy fach i gynrychioli sector gwasanaeth bwyd y DU gyfan, mae'n rhoi cipolwg diddorol ar sut y mae arlwyr, bwytai a chyfanwerthwyr yn bwriadu ailgodi yn dilyn y pandemig.

- » Adroddodd **90%** eu bod yn rhagweld y bydd iechyd a chynaliadwyedd yn bwysicach i'w busnes yn dilyn y pandemig..
- » **Mae gan 79% gynlluniau i ail-ddylunio eu bwydlenni a chynnwys mwy o opsiynau yn seiliedig ar blanhigion.**
- » Pan ofynnwyd iddynt pa fath o brydau planhigion y byddant yn canolbwyntio arnynt, daeth codlysiau a llysiau i'r brig, ac yna ddewisiadau sy'n efelychu cig a phrydau llysieuol heb unrhyw gig a physgod.
- » **Dywedodd 75% fod eu busnes yn bwriadu gwneud ymrwymiadau cyhoeddus newydd i wella iechyd a/neu gynaliadwyedd ac i gynyddu'r llysiau yn eu bwydlenni.**

At ei gilydd, mae hwn yn gyfle addawol i weithio gyda'r sector Oddi Allan i'r Cartref i gefnogi ymrwymiad o'r newydd i gynaliadwyedd iechyd a'r amgylchedd.





Eleni cyflwynodd Hugh Fearnley-Whittingstall eu gwobrau i'n henillwyr yn fyw o River Cottage fel rhan o'n digwyddiad Uwchgynhadledd Llysiau.

Dewiswyd yr enillwyr ar sail eu perfformiad a'u cynnydd yn ystod cylch adrodd 2019/20.

HYRWYDDWR PYS PLÎS - UNIGOLYN

I gydnabod cyfraniad eithriadol unigolyn sy'n gweithio yn un o'n sefydliadau sy'n addunedwyr o ran ysbrydoli a dangos arweinyddiaeth mewn perthynas ag adduned Pys Plîs ei sefydliad.

ENILLYDD:

AMANDA WHATLEY, HC3S

Mae cefnogaeth Amanda i Pys Plîs a Nerth Llysiau wedi bod yn amhrisiadwy, yn enwedig yn ystod cylch monitro'r llynedd. Aeth yr ail filltir i gael y data cywir a'u cyflwyno mewn pryd, gan sicrhau bod y data cywir ar gael i ni ar gyfer gwaith monitro.

YN AIL: Charlotte Newman,
Havering Catering

GWOBRAU ARLOESI PYS PLÎS

I gydnabod gweithgareddau ysbrydoledig ac/ neu arloesol i gefnogi addunedau Pys Plîs a'n cenhadaeth gyffredinol o gynyddu'r llysiau a gaiff eu bwyta.

ENILLYDD:

COMPASS, GYDA'U CYNHYRCHION PLANTILICIOUS

Lansiodd Compass Group ddetholiad newydd o gynnyrch planhigion, Plantilicious, fel rhan o'i gcontractau gyda safleoedd busnes, diwydiant, colegau, prifysgolion a gofal iechyd ym mis Ionawr 2020. Mae'r ystod newydd o brydau planhigion yn sicrhau bod prydau bwyd yn cynnwys o leiaf ddau ddogyn o llysiau sy'n cyfrannu at eich 5-y-dydd.

YN AIL: ALDI, gyda Project Fresh

HYRWYDDWR PYS PLÎS - ADDUNEDWR

I gydnabod sefydliadau sy'n addunedwyr sydd wedi hyrwyddo a gweithredu eu hadduned(au) Pys Plîs ar draws eu sefydliad yn effeithiol fel rhan greiddiol o'u busnes, er enghraifft drwy gynnwys Pys Plîs yn adroddiadau eu cwmni.

ENILLYDD:

SAINSBURY'S

Mae Sainsbury's wedi ymrwmo i adrodd yn dryloyw ar werthu llysiau ar draws y busnes, yn ogystal â lansio nifer o raglenni arloesol i hybu bwyta llysiau. Er enghraifft, yr her 'Great Big Fruit and Veg Challenge' - sy'n cael ei phersonoli i holl gwsmeriaid Nectar ac yn eu gwobrwyo am gynyddu'r dognau o ffrwythau a llysiau y maen nhw'n eu prynu.

YN AIL: Henderson Group
/SPAR NI



SEREN NEWYDD PYS PLÎS

I gydnabod addunedwyr Pys Plîs newydd sydd wedi gwneud addunedau arbennig o effeithiol ac uchelgeisiol i'n helpu ni i gyd i fwyta mwy o lysiau.

ENILLYDD: PRIFYSGOL CAEREDIN

Mae Prifysgol Caeredin wedi addo gweini mwy o lysiau ar draws ei gwasanaeth arlwyio drwy ychwanegu mwy o ddogneau at eitemau i fynd a baratowyd ymlaen llaw – gan ddyblu nifer yr opsiynau llysiau yn eu siopau manwerthu. Mae wedi gosod targedau CAMPUS i weithredu hyn oll erbyn mis Mehefin 2023.

AR Y RHESTR FER: Zizzi

GWOBR DINAS LLYSIAU

I gydnabod dulliau effeithiol ac integredig yn seiliedig ar le o gynyddu nifer y llysiau sy'n cael eu bwyta ar lefel leol ar gyfer dinasoedd sy'n cymryd rhan yn yr ymgyrch Dinasoedd Llysiau.

ENILLYDD: BWYD CAERDYDD, CAERDYDD

Yn ystod y pandemig gweithiodd Bwyd Caerdydd i ennyn cyfranogiad torfol mewn cynlluniau tyfu cymunedol drwy'r prosiect Caerdydd yn Tyfu Gyda'n Gilydd a Gŵyl Bwyd Da yr Hydref Caerdydd. Buont hefyd yn gweithio gyda chyngor y ddinas i gyflwyno map manwl o 'anialwch' ffrwythau a llysiau yn y ddinas er mwyn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn i helpu i lywio polisi cynllunio a galluogi ymyriadau uniongyrchol.

YN AIL: Hull Food Partnership, Hull

GWOBR CYMDEITHAS DDA PYS PLÎS

I gydnabod ymdrechion addunedwyr i leihau anghydraddoldebau o ran cael gafael ar lysiau, er enghraifft y materion hynny sy'n arbennig o berthnasol i Pys Plîs fel bwyd ysgol, cychwyn iach a mentrau amaethyddol.

ENILLYDD: TESCO

Tesco oedd yr addunedwr Pys Plîs cyntaf i ychwanegu £1 at gynllun talebau Cychwyn Iach y Llywodraeth, sy'n darparu arian ar gyfer ffrwythau a llysiau a hanfodion eraill ar gyfer teuluoedd incwm isel cymwys a chanddynt blant ifanc ar draws pob un o'r pedair gwlad.

YN AIL: Lantra

GWOBR CYNNYDD LLYSIAU

Cydnabod y cynnydd canrannol mwyaf yn y dognau llysiau a gafodd eu gwerthu neu eu gweini gan ein haddunedwyr rhwng cylchoedd adrodd 2018/19 a 2019/20.

ENILLYDD: BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO

Cynyddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y llysiau yr oedd yn eu gweini o flwyddyn i flwyddyn – cynnydd syfrdanol o 700% mewn dim ond un o'i safleoedd.

YN AIL: Dinasoedd Llysiau



ASTUDIAETH ACHOS SAINSBURY'S

DEFNYDD NEWYDD O DECHNOLEG DDIGIDOL I GYMELL BWYTA FFRWYTHAU A LLYSIAU.

Yn 2020 lansiwyd y 'Great Big Fruit and Veg Challenge', yr her gyntaf o'i bath i annog ein cwsmeriaid i brynu mwy o ffrwythau a llysiau a'u gwobrwyo am wneud hynny. Gallai cwsmeriaid ymuno â'r her drwy'r ap Nectar a chawsant eu gwobrwyo â phwyntiau Nectar am gyrraedd targed personol ar gyfer prynu ffrwythau a llysiau. Cofrestrodd dros 450,000 o gwsmeriaid i gymryd rhan yn yr her a phrynwyd 52.5 miliwn o ddogonau o ffrwythau a llysiau gan y cwsmeriaid a gymerodd ran yn ystod yr her pedair wythnos. Byddwn yn cynnal

You completed all the badges



yr her hon eto ym mis Mehefin 2021. Awgrymodd dadansoddiad a gynhaliwyd mewn partneriaeth â sefydliad Leeds

ar gyfer Dadansoddeg Data ac Ysgol Gwyddor Bwyd a Maeth ym Mhrifysgol Leeds fod deiliaid cardiau Nectar a gymerodd ran yn yr her wedi mynd â 3.6 dogn ychwanegol o ffrwythau a llysiau yr wythnos adref yn ystod yr her. Yn ddiddorol ddigon, yn yr wythnosau ar ôl yr her, parhaodd y rhai a gymerodd ran i brynu mwy o llysiau, gyda chynnydd o 2.7 dogn yr wythnos o'i gymharu â'r cyfnod cyn yr her. Fe wnaethom gynnal yr ymgyrch eto ym mis Mehefin 2021 ac ar hyn o bryd rydym wrthi'n adolygu'r data.



ASTUDIAETH ACHOS BIRDS EYE

Wedi bod yn gweithredu ers dros 70 mlynedd ac yn brif frand llysiau wedi rhewi y DU, mae Birds Eye yn dra chyfarwydd â'r byd llysiau wedi'u rhewi. Fel brand sydd wedi buddsoddi mewn cefnogi'r genedl i fwyta llysiau, mae Birds Eye yn ymwybodol iawn o'r heriau sy'n gysylltiedig â chynyddu'r llysiau a fwyteir.



cynaliadwyedd, a rhoi hwb i bobl fwyta enfys lawn o llysiau, drwy gynllun 360.

Cafodd yr ymgyrch ei hymgorffori yn Addunedau Pys Plis Birds Eye fel y prif weithgaredd y byddai'r brand yn ei ddefnyddio er mwyn gwneud llysiau'n fwy dymunol a pherthnasol i blant a darparwyr. Gyda phrif negeseuon yn ymwneud â manteision o ran maeth ac iechyd i deuluoedd, atgyfnerthwyd yr

ymgyrch ymhellach drwy ddiwygio'r wybodaeth am faeth ar becynnau, hysbysebion teledu, a deunydd cyfathrebu.

Er mai'r argymhelliad yw y dylid bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd yn y DU (ac yn ddelfrydol mwy o llysiau na ffrwythau), y gwir amdani yw mai dim ond 1.6 dogn o llysiau sy'n cael eu bwyta bob dydd ar gyfartaledd. Ymysg y ffactorau cydnabyddedig sy'n cyfrannu at y ffaith bod cyfradd y llysiau a fwyteir mor isel ymysg pobl y DU mae canfyddiadau nad yw llysiau'n flasus, diffyg hyder wrth eu coginio a pha mor fforddiadwy ydyn nhw, i enwi ond rhai.

Gan gydnabod yr heriau hyn, creodd Birds Eye ymgyrch i annog y genedl i gynyddu'r llysiau y mae'n eu bwyta, yn benodol drwy gyfathrebu manteision llysiau wedi'u rhewi.

Lansiwyd yr ymgyrch Eat In Full Colour yn 2018 gyda'r bwriad o dynnu sylw at fanteision llysiau wedi'u rhewi i iechyd, ynghyd â'u hansawdd, eu blas, eu gwerth a'u

Ers lansio'r ymgyrch Eat In Full Colour, cynhaliwyd rhagor o weithgareddau gan gynnwys her Nerth Llysiau ar y cyd â'r Bartneriaeth Ysgolion Genedlaethol, a "bwyty plant yn unig" lle y cafodd plant eu hannog i flasgu detholiad amryliw o llysiau blasus gan gefnogi rhieni drwy roi awgrymiadau ac ysbrydoliaeth iddynt ar sut i annog eu plant i fwyta mwy o llysiau gartref.

Mae'r ymgyrch "Eat In Full Colour", gyda buddsoddiad o dros £15M yn y cyfryngau hyd yma, yn parhau i gefnogi uchelgais Birds Eye i gynyddu'r llysiau a fwyteir gan y genedl o 1.6 i 3.8 dogn y dydd, a helpu'r genedl i fwyta ychydig mwy o ddaioni bob dydd.

Hyrwyddwyr Llysiau

Cyrhaeddwyd **540** o bobl drwy ein gweithdai recriwtio Hyrwyddwyr Llysiau, a oedd yn edrych ar rwystrau i fwyta llysiau yn yr amgylchedd bwyd

Cafodd **180** o Hyrwyddwyr Llysiau eu recriwtio o bob rhan o'r DU

Cynhaliwyd **3** Deialog Llysiau gan ddod â'n haddunedwyr a'n Hyrwyddwyr Llysiau ynghyd

Cynhaliwyd **50** o ymchwiliadau i llysiau yn y sector manwerthu gan **36** o Hyrwyddwyr Llysiau

Dilynwch ein Hyrwyddwyr Llysiau ar Instagram

@veg.advocates ac ar TikTok


@peasplease project

Mae Hyrwyddwyr Llysiau yn gweithio gyda ni i hyrwyddo ein cenhadaeth o fwyta mwy o llysiau, gan gyfrannu eu profiadau personol o gael gafael ar llysiau a'u fforddio ym mhopeth a wnawn. Mae 2020/21 wedi gweld ein gwaith gyda'r Hyrwyddwyr Llysiau yn cynyddu'n sylweddol, gyda Hyrwyddwyr Llysiau yn cwrdd â'n haddunedwyr, yn arwain ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar gyfer ein digwyddiadau Uwchgynhadledd Llysiau, adeiladu eu rhwydweithiau lleol, a bwrw ati i drefnu ystod o ddigwyddiadau cysylltiedig fel wythnos Gweithredu ar Wastraff Bwyd WRAP ac ymgyrch Bocsys Bwyd Llawn Llysiau. Y flwyddyn nesaf bydd yr Hyrwyddwyr Llysiau yn parhau i weithio gyda ni a'n haddunedwyr, yn ogystal â derbyn cyllid i gynnal eu gweithgareddau llysiau eu hunain yn eu cymunedau lleol.

PROFFIL DEMOGRAFFIG EIN HYRWYDDWYR LLYSIAU

Fe wnaethom gynnal arolwg gyda sampl ar hap o'n Hyrwyddwyr Llysiau i ddeall eu proffil demograffig yn well. Mae ein Hyrwyddwyr Llysiau wedi'u gwasgaru ledled y DU, gyda phroffil ethnigrwydd sy'n cyd-fynd yn fras â phoblogaeth y DU (83% yn wyn, o'i gymharu ag 80.5% ledled y DU) (ONS, 2011). Mae gan ychydig dros hanner incwm cartref misol sy'n is na chyfartaledd y DU. Gan fod cyfnodau clo wedi llesteirio rhai o'n cynlluniau recriwtio a fyddai wedi ymestyn allan yn fwy at grwpiau cymunedol ar lawr gwlad, mae ein proses recriwtio fwy agored yn golygu bod mwyafrif (94%) ein Hyrwyddwyr Llysiau yn fenywod Gwyn yn y categori oedran 36-45 yn bennaf. Wedi dweud hynny, mae'n ddigon posibl bod cyfraddau uchel menywod hŷn ymhlith ein Hyrwyddwyr Llysiau yn adlewyrchiad o'r ffaith mai gwirfoddolwyr yw ein Hyrwyddwyr Llysiau.

NIFER YR HYRWYDDWYR LLYSIAU A GAFODD EU RECRIWTIO



“Diolch yn fawr iawn i chi, roedd yn gyfle gwyh i ni gael adborth gan yr Hyrwyddwyr a chlywed eu syniadau”

NESTLÉ, YN DILYN EIN DEIALOG LLYSIAU AR GYFER GWEITHGYNHYRCHWYR



GWEITHDAI A GWEITHGAREDDAU HYRWYDDWYR LLYSIAU

Yn 2020 a 2021 cynhaliwyd 52 o weithdai gyda 540 o gyfranogwyr, a gwirfoddolodd 180 o bobl i fod yn Hyrwyddwyr Llysiau

Cynhaliodd y gweithdai drafodaeth fywiog ar yr hyn sy'n ei gwneud hi'n anoddach ac yn haws i bobl fwyta mwy o lysiau. Bydd adroddiad byr yn ymchwilio i rai o'r themâu hyn yn cael ei gynhyrchu y flwyddyn nesaf.

Rydym hefyd wedi cynnal 6

gweithdy ar draws y 4 gwlad gyda Hyrwyddwyr Llysiau yn cadw dyddiadur lluniau o'u profiad o gael gafael ar lysiau fel rhan o brosiect ymchwil gyda Phrifysgol Dinas Llundain.

Hefyd, cymerodd dros 20 o Hyrwyddwyr Llysiau ran mewn tair deialog gyda 9 busnes sy'n addunedwyr yn y sectorau gweithgynhyrchu a manwerthu.

Daeth y deialogau â'n Hyrwyddwyr Llysiau, busnesau mawr y DU

a chymdeithas sifil ynghyd i drafod y rhwystrau a'r cyfleoedd i fusnesau gynyddu'r llysiau a fwyteir. Cyflwynwyd **crynodeb** o'n deialog gweithgynhyrchu i Uwchgynhadledd Systemau Bwyd y Cenhedloedd Unedig fel deialog annibynnol. Ochr yn ochr â'r deialogau cynhaliodd Hyrwyddwyr ymchwiliadau i lysiau, drwy ymweld â siopau, siopa ar-lein, ac edrych ar sianeli cyfryngau cymdeithasol ein haddunedwyr er mwyn ein helpu i olrhain cynnydd a nodi esiamplau o arfer gorau a meysydd i'w gwella.

“Fel Hyrwyddwr Llysiau gwirfoddol rwyf wedi mwynhau ymchwilio i ffyrdd o oresgyn rhwystrau i fwyta llysiau mewn cymunedau lleol yn yr Alban ochr yn ochr â gwirfoddolwyr eraill ledled y wlad. Roedd cyfrannu at yr adroddiad Bwydo Ein Dyfodol yn gyfle gwyh i ymchwilio i rôl bwysig ysgolion o ran hyrwyddo bwyta llysiau ymysg plant a phobl ifanc a chefnogi newid deietegol cynaliadwy, a thynnu sylw at hynny”

JOSEPHINE HEGER, HYRWYDDWR LLYSIAU YR ALBAN



Ein heffaith

DOGNAU YCHWANEGOL O LYSIAU A GAFODD EU GWERTHU NEU EU GWEINI

Gan adeiladu ar lwyddiant y rhaglen mewn blynyddoedd blaenorol, mae ein haddunedwyr wedi gwerthu neu weini **636 miliwn** o ddogneau yn y tair blynedd yr ydym wedi bod yn monitro cynnydd addunedwr Pys Plîs. **Yn ystod y 12 mis diwethaf yn unig fe wnaethom ychwanegu dros 403 miliwn o ddogneau at ein cyfanswm, sy'n cynrychioli cynnydd calonogol tuag at ein nod o werthu 3 biliwn o ddogneau ychwanegol o lysiau erbyn 2023.** Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli'n bennaf i'r archfarchnadoedd sy'n addunedwyr, sydd wedi parhau i gynyddu'r cynhyrchion newydd y maent yn eu datblygu a mentrau ail-fformiwleiddio i sicrhau bod pryddau parod yn cynnwys mwy o lysiau, ond sydd hefyd wedi dechrau adrodd yn ôl i ni ar werthiannau llysiau ar draws eu busnesau, gan ganiatáu i ni olrhain y cynnydd a wnaed o ganlyniad i

weithgareddau sy'n cefnogi llysiau. Er y gallai rhywfaint o'r twf hwn fod yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn gwerthiannau bwyd yn sgil y pandemig, mae'r llinellau sylfaen yr ydym yn eu defnyddio i olrhain cynnydd ar gyfer ein manwerthwyr yn rhai 2019/20 i raddau helaeth, pan oedd effaith y pandemig eisoes yn achosi i werthiannau yn y sector manwerthu gynyddu.

Fodd bynnag, er bod olrhain y dognau ychwanegol o lysiau sy'n cael eu gwerthu neu eu gweini gan ein haddunedwyr yn un o'n metrigau craidd, dylid ei osod yn gadarn yng nghyd-destun y rhaglen Pys Plîs a'r pandemig. Ni ddylid cymryd hyn fel mesur sy'n gynrychioliadol o gynnydd sector bwyd y DU o ystyried nad yw ein holl addunedwyr yn adrodd yn ôl i ni ar ddogneau ar hyn o bryd (gweler Atodiad 1 am fanylion pellach), ac

oherwydd bod cyfran y farchnad sydd gan ein haddunedwyr yn amrywio o sector i sector. Mae'r ffaith nad yw'n orfodol i fusnesau yn y DU gyflwyno adroddiadau yn golygu bod cwmnïau'n anghyson wrth adrodd ar werthiannau yn ôl categorïau bwyd penodol. Amcangyfrifon gan Pys Plîs yw'r ffigurau dognau a adroddir yma yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael. At hynny, mae'r pandemig wedi golygu bod gwerthiannau manwerthu yn parhau i fod yn uwch nag yr oeddent cyn y pandemig o ystyried effaith y cyfyngiadau ar y sector Oddi Allan i'r Cartref. O ganlyniad, mae'n bwysig edrych ar ein cyfran dognau Pys Plîs ochr yn ochr â data a adroddwyd gan Kantar sy'n dangos pa *gyfran* o'r fasged siopa sy'n cynnwys llysiau er mwyn cael golwg fwy cyflawn ar gynnydd ar lefel y DU (Tabl 3).



TABL 3

DOGNAU YCHWANEGOL O LYSIAU, PYS PLÎS A KANTAR

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Dognau ychwanegol o lysiau fel yr adroddwyd wrth PP	ddim yn berthnasol	4.8 miliwn	85.1 miliwn	73.3 miliwn	403.6 miliwn
% y llysiau yn y fasged siopa (Kantar)	7.2%	7.3%	7.1%	7.0%	7.0%
% y llysiau yn y fasged siopa ar gyfer manwerthwyr sy'n addunedwyr yn unig (Kantar)*	7.9%	7.7%	7.6%	7.4%	7.5%

636
MILIWN
o ddogneau
ychwanegol
cronnus o lysiau
wedi'u gwerthu
neu eu gweini gan
addunedwyr

* Mae Morrisons wedi cael ei eithrio o restr manwerthwyr sy'n addunedwyr eleni, gan mai dim ond ym mis Mehefin 2021 y gwnaeth ei adduned Pys Plîs.

MESUR DWYSEDD LLYSIAU

Pan lansiwyd Pys Plis, llysiau oedd 7.2% o bwysau'r fasged siopa gyfartalog (Kantar). Gwyddom, fodd bynnag, er mwyn cyd-fynd â Chanllaw Bwyta'n Iach y llywodraeth, y dylai 20% o'r fasged siopa fod yn llysiau.

Fel y dengys Tabl 3, eleni mae cyfran y llysiau yn y fasged siopa wedi aros yn ddigynfnewid ar 7.0%, er bod hyn yn welliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle mae cyfran y llysiau yn y fasged wedi crebachu 0.1%. Eleni, daeth cyfran y llysiau a brynwyd yn agos iawn at gynyddu 0.1% ond methodd o drwyth blewyn (o 6.98% yllnedd i 7.046 eleni). Mae'r data hyn yn triogli'n dda gyda data gwerthiannau a ddarparwyd drwy garedigrwydd IRI, a ddadansoddwyd gan ein sefydliad partner North Llysiau, sy'n dangos fel canran o'r holl werthiannau bwyd bod cyfran y gwerthiannau bwyd sy'n llysiau wedi cynyddu 0.1% yn ystod 2020 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol*. Er bod y rhain yn newidiadau canrannol bach iawn maent, serch hynny, yn cynrychioli swm sylweddol o lysiau ar lefel y boblogaeth. Er bod ffigur Kantar yn parhau i fod yn is nag yr oedd ar ddechrau'r rhaglen, mae'n galonogol gweld bod 2020/21 wedi mynd yn groes i duedd y blynyddoedd blaenorol, ac am y tro cyntaf mewn tair blynedd, nid yw'r ffigur hwn wedi gostwng. Mae hefyd yn galonogol gweld bod cyfran y llysiau yn y fasged wedi cynyddu ymhlith y manwerthwyr hynny sy'n addunedwyr Pys Plis, o 7.4% i 7.5%. Er bod hyn yn parhau

i fod ymhell islaw lle y dylai fod, mae hyn yn uwch na chyfran y llysiau yn y fasged ymhlith y manwerthwyr hynny nad ydyn nhw'n aelodau o Pys Plis (5.4%).

Dim ond cofnodi llysiau ffres, wedi'u rhewi, wedi'u hoeri, wedi'u paratoi a'r rhai mewn tun a wna'r ffigurau hyn, ac felly nid ydynt yn cynnwys peth o'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan ein haddunedwyr sy'n fanwerthwyr o ran eu prydau parod a chynhyrchion eraill sy'n gynhyrchion cyfansawdd ac wedi'u pecynnu. Dim ond gwerthiannau nwyddau groser manwerthwyr y mae Kantar yn eu cofnodi ac nid ydynt yn cynnwys llysiau a weinir gan arlwywyr a bwyta'i cadwyn anffurfiol yn y sector Oddi Allan i'r Cartref, na llysiau a werthir yn uniongyrchol i ddinasyddion, er enghraifft cynlluniau bocsys llysiau. Serch hynny, mae'r ffigurau hyn yn dangos bod digon o le i fanwerthwyr y DU barhau i hyrwyddo llysiau yn well os ydym am gyflawni'r argymhellion yn y Canllaw Bwyta'n Iach. Yn y dyfodol, ein nod yw sefydlu mesur cyfatebol sy'n dangos y gyfran o gyfanswm y gwerthiannau y mae llysiau yn ei chyfrannu at y sector Oddi Allan i'r Cartref i ategu'r hyn sydd gennym ar fanwerthu. Wrth i'r sector Oddi Allan i'r Cartref barhau i adfer, byddwn hefyd mewn gwell sefyllfa i weld sut yn union y mae'r pandemig wedi effeithio ar gyfran y llysiau mewn basgedi manwerthu dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

* Noder bod ffigurau IRI yn seiliedig ar ddiffiniad North Llysiau / Veg Power o lysiau

MAE ANGHYDRADDOLDEB MEWN PERTHYNAS Â LLYSIAU YN PARHAU I FOD YN BRYDER DIFRIFOL

FFIGUR 2

CANRAN Y FASGED SIOPA SY'N CYNWYS LLYSIAU YN ÔL Y DEGRADDAU INCWM UCHAF AC ISAF RHWNG 2018 A 2021




Ffynonellau: Data wedi'i ddarparu i Pys Plis drwy garedigrwydd Kantar

Er y gwelwyd cynnydd i'w groesawu o flwyddyn i flwyddyn ymhlith yr aelwydydd tlotaf o ran cyfran y llysiau yn y fasged siopa (o 5.7% i 5.9% yn 2021), dim ond cynnydd cyfyngedig yw hyn ac mae'n parhau i fod yn is na'n man cychwyn yn 2018. Mae'r berthynas rhwng lefel incwm aelwyd a faint o lysiau a brynnir yn parhau i fod yn gryf, gyda nifer y llysiau a brynnir yn cynyddu yn unol ag incwm, fel y dengys Ffigur 3.



FFIGUR 3

CYFRAN Y LLYSIAU YN Y FASGED SIOPA, YN ÔL INCWM Y FLWYDDYN, AR GYFER 2020/2021**BETH MAE'R DATA'N EI DDWEUD WRTHYM AM FAINT O LYSIAU RYDYM YN EU BWYTA?**

Mae llawer wedi'i ysgrifennu yn ystod y pandemig am effaith Covid-19 ar arferion siopa, coginio a bwyta, gyda llawer o ddyfalu ynghylch i ba raddau y gallai'r pandemig newid ein deiet yn y tymor hir. Fodd bynnag, mae ansawdd llawer o'r astudiaethau sy'n ymchwilio i'r newidiadau hyn yn wael, gyda'r mwyafrif yn cynnwys arolygon ar ffurf holiaduron hunangofnodedig. Canlyniad hyn yw er bod llawer o arolygon yn nodi bod rhai pobl wedi cynyddu faint o ffrwythau a llysiau y maen nhw'n eu bwyta, nid oedd hwn yn brofiad cyffredinol o bell ffordd, ac nid yw bob amser yn cyfateb â data gwerthiannau lle yr arhosodd llysiau fel canran o'r holl werthiannau manwerthu yn gymharol ddigyfnewid. Er mwyn deall yn well y sefyllfa o ran bwyta llysiau yn ystod y pandemig mae angen rhagor o astudiaethau gan ddefnyddio dulliau meintiol o fesur deiet.

Un o'r astudiaethau mwyaf a gynhaliwyd yn y DU yn ystod y pandemig oedd astudiaeth symptomau COVID ZOE, a oedd yn cynnwys arolwg amllder bwyd a gynhaliwyd gyda dros 250,000 o unigolion. Canfuwyd, er nad oedd unrhyw newid yn neiet y boblogaeth ac ymddygiad iechyd ar gyfartaledd, y gellid gweld newidiadau mwy mewn deiet ymhlith unigolion – a allai esbonio'r canfyddiadau gwahanol sydd wedi dod i'r amlwg dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y rhai a oedd yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn fwy tebygol o fod wedi cael patrymau deietegol llai iach yn ystod y pandemig (Mazidii et al, 2021). Canfu astudiaeth a gynhaliwyd gan yr Arolwg Cenedlaethol o Ddeiet a Maeth yn ystod y pandemig Covid, er bod canlyniadau holiadur ar y we yn dangos cynnydd yn y bobl a nododd eu bod yn bwyta mwy o ffrwythau a llysiau (36% o gymharu â 7% yn bwyta llai), canfu elfen dwyn deiet i

gof yr astudiaeth fod y ffrwythau a'r llysiau a fwytawyd mewn gwirionedd 0.7 dogn y dydd yn is ymysg oedolion o gymharu ag asesiad blaenorol a gynhaliwyd cyn Covid. Roedd effaith Covid-19 o ran gwaethgu'r anghydraddoldebau deietegol presennol hefyd yn amlwg, gyda dim ond 13% o'r cyfranogwyr mewn aelwydydd a oedd yn "ymdopi'n waeth yn ariannol" yn bodloni'r argymhelliad 5-y-dydd, ond roedd y gyfran yn fwy na dwbl hyn mewn aelwydydd a oedd yn "byw'n gyfforddus" neu "yn gwneud yn iawn yn ariannol" (33% a 28% yn y drefn honno) (Ashford et al., 2021).

At ei gilydd, er ei bod yn ymddangos bod y pandemig wedi cynnig cyfleoedd i fwyta a phrynu mwy o ffrwythau a llysiau, nid oedd hyn yn wir am bawb, ac nid oedd pobl y DU gyfan wedi newid eu deiet yn sylweddol. >>

CYFRAN 95) Y BOBL SYN BWYTA LLAI NA 305 DOGN O LYSIAU Y DYDD

	2008-2012	2012-2016	2016-2019
OEDOLION (>16 OED)	80%	80%	77%
PLANT (11-16 OED)	95%	96%	94%
PLANT (5-10 OED)	90%	94%	89%

Ffynonellau: NDNS, blynyddoedd 1-4, 2008-2012, blynyddoedd 5-8, 2012-2016, blynyddoedd 9-11, 2016-2019

Yn sicr, yn ystod y degawd hyd at 2019, arhosodd cyfran y llysiau a fwytawyd yn y DU yn weddol sefydlog. Yn **🐾 Ffeithiau Llysiau 2021**, fe wnaethom ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael o'r NDNS, gan ddarganfod bod mwyafrif helaeth poblogaeth y DU yn methu â chyflawni'r argymhellion ar gyfer bwyta llysiau sydd yn y Canllaw Bwyta'n Iach. Mae hyn yn parhau i fod yn arbennig o isel ymhlith plant a grwpiau incwm isel, gyda'r 20% tlotaf o'r boblogaeth a Grwpiau Du, Du Prydeinig ac Ethnig Cymysg hefyd yn bwyta llai o lysiau, gan awgrymu bod anghydraddoldebau strwythurol yn gysylltiedig ag ethnigrwydd ac incwm a all effeithio ar fynediad at ddeiet iach.


CANRAN GWARIANT HYSBYSEBION BWYD A DIODYDD MEDDAL YN Y DU AR LYSIAU

Gan ddefnyddio data a ddarparwyd drwy garedigrwydd Nielsen Ad Intel fe wnaethom ddadansoddi data ar wariant hysbysebu yn y DU ar gyfer bwyd a diodydd meddal, yn cwmpasu hysbysebu mewn sinemâu, post uniongyrchol, taflenni drwy'r drws, hysbysebion yn yr awyr agored, y wasg, radio a theledu. Fe wnaethom gyfrifo canran y gwariant hysbysebu ar bum categori bwyd a diod gwahanol - llysiau, ffrwythau, melysion, byrbrydau melys a sawrus, a diodydd meddal.

Mae'r fenter **🐾 Dinasoedd Llysiau**, a gydlynir gan Lleuedd Bwyd Cynaliadwy (Sustainable Food Cities gynt), yn parhau i ffynnu. Mae data monitro a ddarperir ar ran Dinasoedd Llysiau gan Sustain yn dangos unwaith eto ehangder a dyfnder y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â llysiau sy'n digwydd ar lefel leol. Mae sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y fenter Dinasoedd Llysiau yn cwmpasu ystod o wahanol feysydd, gan gynnwys ysgolion a grwpiau cymunedol, bwytai, arlwywyr, cynghorau a mentrau tyfu bwyd.

Gyda'i gilydd, mae'r sefydliadau hyn wedi gwneud amrywiaeth o wahanol addunedau'n ymwneud â mwy o lysiau, gan gynnwys ymrwmo i hyrwyddo llysiau, gweini dau ddogyn o lysiau gyda phob pryd bwyd, cynnal dosbarthiadau tyfu a choginio llysiau, ac addysgu cymunedau lleol am wastraff bwyd. Mae partneriaethau bwyd lleol hefyd wedi bod yn ymwneud yn helaeth â darparu cymorth brys yn gysylltiedig â bwyd i'w cymunedau yn ystod y pandemig, gyda 116,569 o ddogynau ychwanegol o lysiau wedi'u

tyfu neu eu coginio a'u rhoi i brosiectau a'r bobl fwyaf anghenus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. O ganlyniad i'r ymdrech hon, mae 9.7 miliwn o ddogynau o lysiau wedi cael eu gweini dros y tair blynedd diwethaf.



Ffynonellau: Gyda diolch i Nielsen AD Intel, 2017; 2018; 2019



Er y gwelwyd cynnydd calonogol yn 2019 o'i gymharu â 2017, gostyngodd y gwariant ar hysbysebu ar lysiau fel cyfran o'r cyfanswm yn 2020 i ychydig o dan 1.9% - swm pitw o'i gymharu â'r swm a wariwyd yn hyrwyddo melysion a diodydd meddal (17%). Er nad yw data

Nielsen yn cynnwys North Llysiau, mae cyfle go iawn i addunedwyr Pys Plis gynyddu'r swm y maent yn ei wario yn hyrwyddo a hysbysebu llysiau ar y cyfryngau torfol, ond hefyd mewn siopau ac wrth ddesgiau talu o ystyried y gwaharddiad arfaethedig ar hyrwyddo bwydydd sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr mewn siopau ar ddiwedd 2022.

Cyrhaeddwyd nifer fawr o bobl yn uniongyrchol fel rhan o fentrau sy'n cael eu cynnal gan Dinasoedd Llysiau:

- » cyrhaeddwyd **657,871** o bobl yn uniongyrchol drwy weithgareddau hyrwyddo llysiau.
- » cymerodd **18,052** o bobl ran mewn dosbarthiadau tyfu a choginio.
- » sefydlwyd neu cefnogwyd **598** o erddi fel rhan o greu rhwydwaith o fannau tyfu
- » sefydlwyd **389** o fentrau wedi'u sefydlu i fonitro a lleihau gwastraff bwyd.
- » sefydlwyd **32** o farchnadoedd a stondinau llysiau.



ASTUDIAETH ACHOS BWYD CAERDYDD

Datblygodd Bwyd Caerdydd yr ymgyrch Dinasoedd Llysiau ar y cyd â Pys Plis a Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn 2017. Gwnaed 46 o addewidion i dyfu, gweini, gwerthu, coginio ac arbed mwy o lysiau. O ganlyniad, mae cannoedd ar filoedd yn fwy o ddognau o lysiau wedi cael eu bwyta yn y ddinas.

Yn gynnar yn 2020, roedd Bwyd Caerdydd yn cydnabod bod Covid-19 yn debygol o gael effaith fawr ar allu pobl i gael gafael ar fwyd da, yn enwedig llysiau. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn a chefnogi llesiant yn y ddinas yn ystod y cyfnod clo, fe wnaeth Bwyd Caerdydd ehnagu'r ymgyrch er mwyn sbarduno chwyldro tyfu bwyd ledled y ddinas.

Er mwyn gwneud hyn, cydlynodd Bwyd Caerdydd ddau brosiect (Caerdydd yn Tyfu Gyda'n Gilydd a Gŵyl Hydref #BwydDaCaerdydd) yn 2020, gan weithio gyda thros 27 o bartneriaid, gan gynnwys Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes. Mynychodd 5,000+ o aelwydydd 55 o weithgareddau bwyd am ddim. Dosbarthwyd 20,000 o blanhigion llysiau ac nid oedd ~75% o'r rhai wnaeth eu derbyn wedi tyfu bwyd o'r blaen. Arweiniodd sesiynau cyd-goginio ar-lein, cyfnewid ryseitiau a dosbarthiadau coginio at fwy na 1,300 o brydau bwyd yn cael eu coginio a'u rhannu. Cafodd y prosiectau sylw mawr yn y cyfryngau digidol, print a darlledu. Buont yn gweithio gyda Gerddi Parc Bute Cyngor Caerdydd i dyfu swm sylweddol o blanhigion llysiau ifanc o ansawdd uchel er mwyn eu dosbarthu.

Ochr yn ochr â'r gwaith ymarferol cynhaliodd Bwyd Caerdydd ymgyrch ymgysylltu ar-lein #BwydDaCaerdydd ac roedd partneriaid hefyd yn cynnal dosbarthiadau tyfu ar-lein a chynnwys ar-lein arall; a chreu cyfeirlyfr rhannu



Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn a chefnogi llesiant yn y ddinas yn ystod y cyfnod clo, fe wnaeth Bwyd Caerdydd ehnagu'r ymgyrch er mwyn sbarduno chwyldro tyfu bwyd ledled y ddinas.

cynnyrch, gan ddefnyddio gwefan prosiect leol.

Mae Bwyd Caerdydd hefyd wedi cefnogi creu a datblygu rhwydwaith Edible Cardiff / Caerdydd Bwydwy. Mae Caerdydd Bwydwy wedi bod yn weithgar ers ei lansio gyda digwydiad "Llenwch y Strydoedd gyda Bwyd a Blodau" yn 2017. Mae'r rhwydwaith yn dwyn ynghyd dros 30 o grwpiau tyfu bwyd i rannu gwybodaeth, hyfforddiant ac offer, ac i ymgyrchu dros fynediad at dir. Tan 2020, roedd Caerdydd Bwydwy yn brosiect nad oedd yn cael ei ariannu, ond yn rhannol oherwydd llwyddiant Caerdydd yn Tyfu Gyda'n Gilydd, mae bellach wedi cael cyllid am 3 blynedd o amser cydlynedd a

chyllid ar gyfer Gŵyl Tyfu flynyddol. Roedd Bwyd Caerdydd yn bartner allweddol a ysgrifennodd y cais am gyllid ac mae'n cadeirio Grŵp Datblygu Caerdydd Bwydwy.

Mae Bwyd Caerdydd yn adeiladu ymhellach ar y gwaith hwn gyda phrosiect cydweithredol newydd gydag Caerdydd Bwydwy o'r enw O'r Plot i'r Pantri, sy'n anelu at ddatblygu cadwyn gyflenwi leol yn amrywio o randiroedd, gerddi cymunedol a thyfwrwr lleol i brosiectau manwerthu bwyd cymunedol. Mae dros 100kg o gynnyrch lleol eisoes wedi'i achub ac fe'i trawsnewidiwyd yn waith celf mawr cyn cael ei goginio gan grwpiau cymunedol ledled y ddinas.

Ein heffaith ar bolisi

CYCHWYN IACH

DROS Y FLWYDDYN ADRODD DDIWETHAF:

- » Fe wnaethom hwyluso **4 cyfarfod bord gron** gyda manwerthwyr a'r Llywodraeth i drafod digideiddio'r cynllun
- » Mae dros **18,000 o bobl** wedi defnyddio ein cyfrifiannell cymhwysedd Cychwyn Iach
- » Ychwanegodd **7 manwerthwr**, y mae **5 ohonynt yn addunedwyr**, werth ychwanegol at y cynllun gan ddarparu arian ychwanegol ar gyfer ffrwythau a llysiau
- » Mae manwerthwyr y DU wedi buddsoddi dros **£1.5 miliwn** yn 2020 gan ychwanegu gwerth at fasgedi cwsmeriaid Cychwyn Iach a Best Start



Roeddem yn falch iawn o weld cymaint o'n haddunedwyr Pys Plis yn cefnogi ein hymgyrch i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynlluniau Cychwyn Iach a Best Start dros y flwyddyn ddiwethaf. Cynllun lles i fenywod ifanc beichiog a theuluoedd ar incwm isel sydd â phlant o dan bedair oed yw Cychwyn Iach ac mae'n darparu cyllid ar gyfer llysiau, ffrwythau, codlysiau a llaeth (Best Start Foods yw'r cynllun cyfatebol yn yr Alban). Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n manteisio arno yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn isel, gan ostwng i lai na 50% yn ystod haf 2020 yn dilyn y cyfnod clo cyntaf. Yn dilyn yr argymhellion yn rhan un o'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol a chyhoeddiad y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2020 y byddai gwerth y talebau yn

cael ei gynyddu o £3.10 i £4.25 ym mis Ebrill 2021, penderfynodd nifer o fanwerthwyr ychwanegu at werth y daleb yn ystod y cyfnod interim a chodi mwy o ymwybyddiaeth o'r cynllun.


Cydweithiodd Pys Plis gyda'r tîm Strategaeth Fwyd Genedlaethol gan arwain yr ymgyrch End Child Food Poverty i weithio gyda manwerthwyr y DU i gefnogi'r cynllun Cychwyn Iach. Fe wnaeth manwerthwyr gyfeirio eu cwsmeriaid at y cynllun a darparu gwerth ychwanegol er mwyn i'r talebau hyn fynd ymhellach a chefnogi teuluoedd ar incwm isel iawn i brynu mwy o ffrwythau a llysiau. Tesco, er enghraifft, enillwyr ein Gwobr Cymdeithas Dda am gefnogi'r cynllun, oedd y cyntaf o'n haddunedwyr i ychwanegu at werth y talebau

Cychwyn Iach a ddefnyddiwyd yn eu siopau. Prynodd y cwsmeriaid hynny a ddefnyddiodd eu cwpon ffrwythau a llysiau Tesco dros 50,000 o giwcymbrau, dros 10,000 blodfresych a dros 10,000 o becynnau o fefus yn ystod cyfnod y cynnig.

Diolch i'r ymdrechion hyn, a'r ymwybyddiaeth gynyddol o'r cynllun a ysgogwyd gan ffocws Tasglu'r ymgyrch End Child Food Poverty ar y cynllun Cychwyn Iach, rydym wedi gweld cynnydd o ddeg pwynt canran yn y nifer sy'n manteisio ar y cynllun yn ystod y cyfnod ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rhwng mis Medi 2020 a mis Awst 2021, fe wnaeth 61,000 yn fwy o deuluoedd fanteisio ar y cynllun na chyn i'n partneriaeth ddechrau.

FFIGUR 4

CYCHWYN IACH





ASTUDIAETH ACHOS LIDL A CYCHWYN IACH



Mae "sicrhau bod bwyd da ar gael i bawb" yn rhan annatod o weledigaeth cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol Lidl GB. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, fe wnaethom gyflwyno ychwanegiad dros dro at werth talebau Cychwyn Iach yng Nghymru a Lloegr o ddechrau 2021, gan eu cynyddu i £4.25 tan fis Ebrill 2021 - gwerth hyd at £1 miliwn. Nod y cynnydd oedd darparu cymorth ychwanegol i deuluoedd ar incwm isel cyn i gynnydd cyfatebol Llywodraeth y DU ddod i rym ym mis Ebrill 2021.

Drwy wneud hynny, ni oedd y manwerthwr cyntaf i gynyddu gwerth y



talbau fwy na thraean. Cymeradwywyd ein cefnogaeth i'r cynllun Cychwyn Iach yn gryf hefyd gan Dasglu End Child Food Poverty Marcus Rashford, y mae Lidl yn aelodau ohono. Fe wnaethom gefnogi'r fenter gydag ymgyrch genedlaethol yn y wasg, i sicrhau bod

cymaint o deuluoedd cymwys â phosibl yn dod yn ymwybodol o'r ychwanegiad ac o ganlyniad, gwelsom gynnydd o 10% yn y talebau Cychwyn Iach a wariwyd yn ein siopau yn ystod y cyfnod Ionawr 2021 i Ebrill 2021.

Ni ddaeth ein hymrwymiad i gefnogi'r cynllun hanfodol hwn i ben ym mis Ebrill, ac rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gefnogi aelodau o'n cymunedau sydd mewn angen. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'r GIG, gan adolygu ffyrdd y gallwn ehangu a chefnogi'r cynllun yn y dyfodol.


GARDDWRIAETH

Yn Lloegr, mae Pys Plis wedi parhau i gefnogi'r **Gynghrair Ffrwythau a Llysiau**, sy'n darparu mewnbwn rheolaidd i Defra a'r Gweinidog Bwyd, Ffermio a Physgodfeydd drwy'r Ford Gron ar Arddwriaeth Fwyadwy. Mae'r grŵp yn cynghori'r Llywodraeth ar y ffordd orau i gefnogi'r diwydiant garddwriaeth i gynyddu cynhyrchiant er mwyn helpu i gyrraedd targedau bwyta ffrwythau a llysiau. Mae Covid-19 a Brexit wedi golygu bod eleni wedi bod yn heriol i aelodau'r Gynghrair sydd wedi llwyddo i gynnal eu lefelau cynhyrchu er gwaethaf gorfod delio â phrinder llafur a chostau cynhyrchu uwch.

Mae aelodau'r Gynghrair yn cwrdd yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ac maent wedi datblygu **gweledigaeth**, sydd bellach yn arwain gwaith y Gynghrair ar bum maes:

1. **Cynhyrchiant**
2. **Yr amgylchedd a sero net**
3. **Tegwch yn y gadwyn gyflenwi**
4. **Llafur a newydd-ddyfodiaid**
5. **Cynyddu'r ffrwythau a llysiau a fwyteir**

Yn yr Alban, mae Pys Plis wedi bod yn ymchwilio i weld a allai sianelu cyllid drwy awdurdodau lleol fod yn ffordd ddefnyddiol o gefnogi'r gwaith o ehangu garddwriaeth drefol. Mae Partneriaid Nourish Scotland wedi bod yn dadlau dros fuddsoddi mewn sgiliau, tir a chyllid er mwyn ehangu garddio marchnad a thai gwydr lle ceir amgylchedd rheoledig. Maent hefyd



yn cefnogi'r ymgynghoriad ar strategaeth fwyd leol Llywodraeth yr Alban.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae Pys Plis wedi bod yn cefnogi ymdrechion cynhyrchwyr llysiau i godi ymwybyddiaeth o'r sector. Trefnodd Fforwm Garddwriaeth Gogledd Iwerddon arddangosfa llysiau fawr yn Sioe Balmoral 2021 a lansiodd Veg NI, grŵp newydd deinamig o dyfwr llysiau, ddyluniad a delwedd feiddgar a chyfoes ar gyfer llysiau lleol. Bydd gwefan Parful Produce yn cael ei lansio'n fuan a bydd yn siop un stop i bobl ddysgu mwy am llysiau a sut i'w coginio.

Yng Nghymru, mae Pys Plis yn treialu cynlluniau grantiau bach ar gyfer cynhyrchwyr ar raddfa fach. Mae'r peilot a'r gwerthusiad yn edrych ar yr effaith y gall symiau bach o gyllid ei chael ar gynyddu cynhyrchiant ac ehangu sylfaen cwsmeriaid cadwyni cyflenwi bach. Mae Pys Plis hefyd wedi cefnogi datblygu Cynghrair Garddwriaeth newydd i Gymru.



ASTUDIAETH ACHOS DATBLYGU CYFLENWAD BWYD CYNALIADWY SYDD Â'I WREIDDIAU YN Y GYMUNED

RHWYDWAITH AMAETHYDDIAETH A GEFNOGIR GAN Y GYMUNED (AGG) Y DU

Mae angen dybryd am system fwyd gynaliadwy a all oresgyn yr heriau cyfredol yn ymwneud ag ansicrwydd bwyd, chwalfa gymunedol, newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Mae ffermydd AGG yn cynyddu mynediad at fwyd da a gynhyrchir yn lleol; yn defnyddio cadwyni cyflenwi byr sy'n lleihau gwastraff ac nad ydynt yn cael eu heffeithio gan wleidyddiaeth, argyfyngau tanwydd neu brinder llafur; yn dod â chymunedau ynghyd ac yn cynyddu dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen arnom i gael system fwyd gynaliadwy.

Mae Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned yn fodel ar gyfer ffermio amaeth-ecolegol ar raddfa fach sy'n stiwardio'r tir, gan adfer a gwella bioamrywiaeth ac iechyd y pridd, a darparu incwm teg, sefydlog i ffermwyr. Mae'n cynnig ffordd unigryw i newydd-ddyfodiaid ymuno â'r byd ffermio ac mae'n cysylltu pobl a chynhyrchydd drwy fuddsoddiad cymunedol. Mae aelodau cymuned AGG yn derbyn cynnyrch yn gyfnewid am gefnogi'r fferm drwy lafur, cydberchnogaeth neu, yn fwyaf cyffredin, cytundeb i brynu'r cynnyrch am dymor cyfan.

Mae busnesau AGG yn dibynnu ar bartneriaeth gefnogol rhwng y cynhyrchydd a'r gymuned. Mae'r nodweddion hyn yn gwneud ffermydd AGG yn hynod o wydn. Mae'r ffaith eu bod yn ffermydd bach gyda'u gwreiddiau yn y gymuned, a'u hunanddibyniaeth a'u cadwyni cyflenwi byr iawn yn golygu eu bod yn aml yn ymdopi ag argyfyngau yn llawer gwell na mentrau mwy o faint.

Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19 dywedodd ein ffermydd:
"Roeddem yn credu mai cael llawer o ffrydiau incwm fyddai'r cynllun mwyaf dibynadwy ond mae'n ymddangos mai AGG yw'r rhan fwyaf dibynadwy o'n busnes."



Gwledigaeth Rhwydwaith Amaethyddiaeth â Gefnogir gan y Gymuned y DU yw cael menter AGG ym mhob cymdogaeth. Ein haddunedau ar gyfer Pys Plis oedd 1) cynyddu nifer y ffermydd sy'n aelod a 2) cynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o fodolau sy'n cynyddu mynediad at fwyd AGG. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein gwaith a'r cyfuniad o'r pandemig Covid-19, yr ymwybyddiaeth uwch o newid yn yr hinsawdd a'r angen cynyddol am ddewisiadau amgen i'r system fwyd gyfredol wedi arwain at dwf enfawr mewn ffermydd AGG. Mae ein cynllun mentora yn helpu ffermydd AGG i sefydlu eu hunain drwy rannu gwybodaeth a model cysylltu, gan gynyddu eu gwytnwch a'u tebygolrwydd o lwyddo yn yr hirdymor. **Drwy gyfuniad o gefnogaeth, mentora, eiriolaeth, gwaith cyfathrebu ac adeiladu partneriaethau rydym wedi gweld nifer y ffermydd sy'n aelodau o rwydwaith AGG y DU**



bron yn dyblu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o 89 ym mis Ebrill 2020 i 154 ym mis Mawrth 2021. Mae ymwybyddiaeth o AGG hefyd wedi cynyddu, ymhlith llunwyr polisïau, ble rydym bellach yn aelodau o grwpiau polisi a phaneli dylanwadol, ac ymhlith y cyhoedd - gyda'r cyfeiriadau at AGG yn y cyfryngau yn y DU wedi dyblu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae ein hadduned Pys Plis wedi bod yn ffactor pwysig wrth ddechrau archwilio mynediad at fwyd. Mynegodd pob menter AGG y buom yn siarad â hi yn ein harolwg blynyddol diweddaraf awydd i ymchwilio i ffyrdd y gallm wneud i hyn ddigwydd. Hyd yn hyn rydym wedi holi ein mentrau AGG am eu gwybodaeth am Cychwyn Iach, wedi creu briff ar sut y gallant gymryd rhan yn y cynllun, ac wedi arddangos modelau undod eraill sy'n cael eu defnyddio gan fentrau AGG. Rydym nawr yn dechrau darn o waith hirdymor yn edrych ar sut y gallwn gynyddu mynediad at fwyd gan fentrau AGG. Camau cyntaf y prosiect hwn yw cyfres o weithdai gyda'n ffermydd sy'n aelodau i dafod yr heriau a chyd-ddylunio atebion y byddwn wedyn yn chwilio am gyllid i'w treialu a'u gwerthuso. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r mudiad AGG neu os hoffech gael mwy o wybodaeth gallwch wneud hynny [yma](#).



Ein heffaith allanol


CYFEIRIADAU NODEDIG AT PYS PLÎS



Cyfeiriwyd at Pys Plîs a Nherth Llysiau ym mhennod 'Astudiaethau achos mentrau addawol' ym **mhapur cefndir** FAO yn edrych ar bolisiau a rhaglenni sy'n cynyddu'r ffrwythau a'r llysiau a fwyteir fel rhan o *Flwyddyn Ryngwladol Ffrwythau a Llysiau*.



Cafodd erthygl ar Pys Plîs, **'Eating the Rainbow'**, ei chyhoeddi yng nghyfnodolyn y Sefydliad Gwyddor Bwyd a Thechnoleg fel rhan o rifyn yn edrych ar faeth ac iechyd.



Cafodd y rhaglen Pys Plîs ei chynnwys fel astudiaeth achos o 'arweinyddiaeth ar waith' fel rhan o fap **Eating Better, Better by half: A roadmap to less and better meat and dairy**, fel enghraifft o sut i annog gwerthiant bwydydd sy'n seiliedig ar blanhigion.



Cyfeiriwyd at ystadegau o'n hadroddiad *Efeithiau Llysiau 2021* ar The Today Programme, fel rhan o eitem yn edrych ar ddeiet nodweddiadol yn y DU cyn cyhoeddi'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol.



Fe wnaeth nifer ein haddunedwyr gyrraedd 100 ym mis Ebrill, a rhoddwyd sylw mawr i'r garreg filltir honno yn y sector, gan gynnwys yng nghylchgrawn **The Grocer**.



Cyfeiriwyd at Pys Plîs fel enghraifft o ymgrych gadarnhaol ar ailfformiwleiddio maeth yn **Food Navigator**, diolch i lwyddiant ein haddunedwyr sydd wedi ymrwmo i gynyddu llysiau mewn prydau parod.

Gwersi allweddol a'r camau nesaf

Argymhellodd y Strategaeth Fwyd Genedlaethol ar gyfer Lloegr a gyhoeddwyd eleni y dylid anelu at gynydd o 30% yn nifer y ffrwythau a'r llysiau a fwyteir erbyn 2032 os ydym am gyflawni ymrwymïadau iechyd, hinsawdd a natur. Ond gwyddom fod y llysiau a fwyteir ar draws pedair gwlad y DU yn parhau i fod ymhell islaw'r argymhellion, yn enwedig ymhlith plant a grwpiau incwm isel. Er ein bod wedi gweld cynnydd addawol eleni gan ein haddunedwyr Pys Plîs, bydd angen i ni gymryd camau mwy beiddgar a bydd angen i sefydliadau ar draws y sector bwyd adrodd mewn ffordd fwy tryloyw os ydym am gynyddu'r llysiau a fwyteir gan y genedl.

Bydd angen camau gweithredu gan y rhai sydd eisoes yn addunedwyr yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn addunedwyr. Ni fydd aros i ddinasyddion newid eu hymddygiad arferol wrth i'w hymwybyddiaeth o effaith ein system fwyd ar iechyd a llesiant gynyddu yn ddigon. Wedi'r cyfan, nid yw'n ymddangos bod y newid llwyr mewn arferion beunyddiol yn ystod y pandemig

wedi cael effaith sylweddol ar ddeiet nodweddiadol Prydain (Mazidii *et al.*, 2021; Ashford *et al.*, 2021). Rhaid aros i weld a fydd y cyfleoedd a ddaeth yn sgil y pandemig i rai grwpiau o bobl, fel gallu treulio mwy o amser yn cael gafael ar fwyd iachach a'i goginio, megis llysiau, yn parhau wrth i ddinasyddion ddychwelyd yn raddol i arferion mwy normal.

Felly mae'n rhaid i'r Llywodraeth a busnesau gymryd camau i newid yr amgylchedd llysiau. Ymhlith y camau pendant y gall cymuned addunedwyr Pys Plîs eu cymryd i gefnogi ein cenhadaeth, mae sicrhau bod holl ymrwymïadau Pys Plîs yn rhai CAMPUS, gosod targedau newydd ac uchelgeisiol ar gyfer gwella, ac ymrwmo i adrodd yn dryloyw ar y cyfran o gyfanswm y gwariant gwerthu neu gaffael sydd i'w briodol i llysiau. Drwy weithio gyda'n gilydd rydym eisoes wedi helpu i wneud gwahaniaeth. Drwy barhau i weithio gyda'n gilydd a hyrwyddo llysiau, gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol sy'n para.



Diolch

Diolch o galon i'n haddunedwyr am y cynnydd y maent wedi'i wneud, eu gonestrwydd wrth ddisgrifio'r anawsterau y gallent fod yn eu hwynebu, ac am ddod gyda ni ar y daith fonitro hon! Mae 2021 wedi bod yn flwyddyn heriol arall i ni i gyd ac rydym yn gwerthfawrogi ymdrechion ein haddunedwyr i barhau i gefnogi Pys Plîs a darparu data i'r rhaglen.

Diolch i'n holl Hyrwyddwyr Llysiau gwych, am eu holl gefnogaeth, syniadau a'u mewnbwn i Pys Plîs, na fyddai yr un peth hebddyn nhw.

Diolch i Fwrdd Strategaeth a Bwrdd Cyngori Pys Plîs am eu cymorth a'u harweiniad gyda'r adroddiad hwn a phopeth yn ymwneud â Pys Plîs.

Ac yn olaf, diolch o waelod calon i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am ariannu'r fenter Pys Plîs ar gyfer 2019–2023.



Atodiad

DADANSODDIAD MANWL O GYNNYDD ADDUNEDWR

Rydym wedi grwpio ein haddunedwyr yn ôl sector, yn unol â'n **fframwaith ymrwymiadau**, ac mae'r camau gweithredu y mae sefydliadau yn ymrwymo iddynt fel rhan o'u haddunedau yn amrywio yn dibynnu ar fodel busnes a sector y sefydliad. Gellir gweld dadansoddiad manwl o'r addunedau ar **ficrowefan Pys Plis**

Allwedd i'r sgoriau goleuadau traffig:

- **DU:** Dim adroddiad gan yr addunedwr
- **LLWYD:** Blwyddyn adrodd gyntaf (adroddir ar y sgôr y flwyddyn nesaf)
- **COVID-19:** Methu ag adrodd eleni oherwydd materion yn ymwneud â chapasiti yn sgil Covid-19
- **COCH:** Cynnydd cyfyngedig
- **OREN:** Dechrau da
- **MELYN:** Ar y ffordd tuag at lwyddiant
- **GWYRDD:** Wedi cyflawni'r holl ymrwymiadau'n llawn

DYLANWADWYR Y SYSTEM

1.5% (cyfran y cyfanswm cronol o ddogneau a gyfrannwyd gan ein haddunedwyr sy'n ddylanwadyr y system)

ADDUNEDWR	GOLAU TRAFFIG	
	CYNNYDD CYFFREDINOL	CYNNYDD O RAN DOGNAU
ACS	●	Dd/B
Lantra	●	Dd/B
Civica (Saffron gylt)	●	●
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol	ADDUNED NEWYDD	Dd/B
GroentenFruit Huis	●	Dd/B
Cymdeithas y Pridd	●	Dd/B
Sustainable Food Places	●	●
Cymdeithas Bwyta Cynaliadwy	ADDUNED NEWYDD	Dd/B
TUCO	●	Dd/B
WRAP	●	Dd/B
Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned	●	Dd/B
Fforwm Garddwriaeth	●	Dd/B
Undeb Ffermwyr Ulster	●	Dd/B
Bags of Taste	●	Dd/B
TastEd	●	●
Rhaglen Gwella Gwyliu'r Haf	●	●
Strong Roots	●	●

MANWERTHWYR

78.1% (cyfran o gyfanswm cronolol y dognau a gyfrannwyd gan ein haddunedwyr sy'n fanwerthwr)

ADDUNEDWR	GOLAU TRAFFIG	
	CYNNYDD CYFFREDINOL	CYNNYDD O RAN DOGNAU
Aldi		
Asda		Nid yw'n adrodd ar hyn o bryd
Co-op		Nid yw'n adrodd ar hyn o bryd
Lidl	ADDUNED NEWYDD	Darparwyd llinell sylfaen eleni - adroddir ar ddognau y flwyddyn nesaf
Sainsbury's		
Simply Fresh	ADDUNED NEWYDD	Nid yw'n adrodd ar hyn o bryd
Tesco		
Waitrose		Darparwyd llinell sylfaen eleni - adroddir ar ddognau y flwyddyn nesaf
Henderson Group/SPAR NI		
Morrisons		

ODDI ALLAN I'R CARTREF - ARLWYWYR CONTRACT

7.9% (cyfran o gyfanswm cronolol y dognau a gyfrannwyd gan ein haddunedwyr sy'n arlwywyr contract)

ADDUNEDWR	GOLAU TRAFFIG	
	CYNNYDD CYFFREDINOL	CYNNYDD O RAN DOGNAU
A & J Catering		
Albacore		
Autograph Education (Mitie)		Llinell sylfaen newydd
Bartlett Mitchell		
BaxterStorey		
Blackpool Catering Services		
Caterlink		
CEC catering		
Compass Group		

Gwasanaethau Arlwyyo Cyngor Sir Hampshire (HC3S)		
Havering Catering Services (HES)		
ISS		
Olive Catering		
Sodexo		
Vacherin		
Vertas		

ODDI ALLAN I'R CARTREF - BWYTAI CADWYN Y STRYD FAWR

1.5% (cyfran o gyfanswm cronol y dogneau a gyfrannwyd gan ein haddunedwyr sy'n fwyta cadwyn y stryd fawr)

ADDUNEDWR	GOLAU TRAFFIG	
	CYNNYDD CYFFREDINOL	CYNNYDD O RAN DOGNAU
Greggs PLC		
S A Brains	Ddim yn gweithredu mwyach	
Ask Italian		
Brewers Fayre (Whitbread)		
Giraffe		
Harvester (Mitchells & Butlers)		
Hungry Horse (Greene King)		
Ikea		
JD Wetherspoon		
Leon		
Prezzo		
Zizzi		

LLEOLIADAU DIGWYDDIADAU, GWEITHLEOEDD A CHAFFAELWYR CYHOEDDUS

0.02% (cyfran o gyfanswm cronol y dognau a gyfrannwyd gan ein haddunedwyr sy'n ofod digwyddiadau, gweithleoedd a chaffaelwyr cyhoeddus)

ADDUNEDWR	GOLAU TRAFFIG	
	CYNNYDD CYFFREDINOL	CYNNYDD O RAN DOGNAU
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro		
Dynamic Earth		
PwC/BaxterStorey	Wedi'i symud i'r categori cefnogwr - adduned PwC wedi'i gwblhau, ei ymgorffori yn adduned BaxterStorey wrth symud ymlaen	
University of West London (UWL)		Ddim yn adrodd ar hyn o bryd
Aramark Robert Gordon University		
Aramark University of Westminster		
Edinburgh School of Food & Wine		Ddim yn adrodd ar hyn o bryd
Twickenham Stadium		Ddim yn adrodd ar hyn o bryd
Prifysgol De Cymru		
University of Edinburgh		

GWEITHGYNHYRCHWYR A CHYFANWERTHWYR

11% (cyfran o gyfanswm cronol y dognau a gyfrannwyd gan ein haddunedwyr sy'n weithgynhyrchwyr a chyfanwerthwyr)

ADDUNEDWR	TRAFFIC LIGHT	
	CYNNYDD CYFFREDINOL	CYNNYDD O RAN DOGNAU
Birds Eye		
Mars		Addunedwr newydd - yn adrodd ar ddognau y flwyddyn nesaf
Nestlé UK		Ddim yn adrodd ar hyn o bryd
Bidfood		Ddim yn adrodd ar hyn o bryd
Castell Howell		
Puffin Produce	ADDUNED NEWYDD	Dd/B
Mash Direct		Dd/B
Swperbox		

Cyfeiriadau

Ashford, R. et al. (2021) 'National Diet and Nutrition Survey: Diet, nutrition and physical activity in 2020'.

Jahshan, E. (2021) 'Grocery sales slip 1.6% but still remain £3.3bn above pre-pandemic levels'. Ar gael ar: <https://www.retailgazette.co.uk/blog/2021/06/grocery-sales-slip-1-6-but-still-remain-3-3bn-above-pre-pandemic-levels/> (Fel ar: 26 Hydref 2021).

Kantar (2017) *The retailer challenge* | Food Foundation. Ar gael ar: <https://foodfoundation.org.uk/retailer-challenge> (Fel ar: 27 Hydref 2021).

Mazidii, M. et al. (2021) 'Impact of COVID-19 on health behaviours and body weight: A prospective observational study in a cohort of 1.1 million UK and US individuals'. doi: 10.21203/RS.3.RS-179013/V1.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2011) *Ethnicity and National Identity in England and Wales - Office for National Statistics*. Available at: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity/articles/ethnicityandnationalidentityinenglandandwales/2012-12-11> (Fel ar: 26 Hydref 2021).

Pys Plis (2021) *Ffeithiau am Lysiau 2021*. Ar gael yn: <https://foodfoundation.org.uk/publication/veg-facts-2021/> (Fel ar: 9 Mehefin 2021).





The Food Foundation CIO

International House, 6 Canterbury Crescent, Brixton, London SW9 7QD

+44(0)20 3086 9953 | foodfoundation.org.uk | [@Food_Foundation](https://twitter.com/Food_Foundation)

©Food Foundation. All rights reserved. Reproduction in part or in whole is prohibited without prior agreement with the Food Foundation.
Charity number: 1187611.